Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio Cymru Gyfan 2018-19

© Hawlfraint y Goron 2019
WG39440 ISBN digidol: 978-1-83933-581-5

## CYFLWYNIAD

**Julie James AC – Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**



Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu lleoedd: adeiladu a chreu lleoedd cynaliadwy i bobl fyw, gweithio a chwarae.  Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, mae angen i'n system gynllunio fod yn arloesol ac yn effeithiol.

Mae Rhifyn 10 o Bolisi Cynllunio Cymru yn hybu hyn trwy roi cynaliadwyedd a llesiant wrth galon polisi cynllunio cenedlaethol.  Wrth adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol, cânt eu diweddaru hefyd fel bod creu lleoedd yn ganolog i ddatblygiadau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r broses o weithredu'r weledigaeth uchelgeisiol hon yn dibynnu ar system gynllunio iachus a gweithredol.

Rhaid creu cynlluniau datblygu yn unol ag amserlenni y cytunir arnynt a thrwy gynnwys y gymuned mewn modd effeithiol.  Mae'r un peth yn berthnasol pan gânt eu hadolygu.  Mae cynlluniau a fabwysiadir yn darparu sicrwydd, i ddatblygwyr ac i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, o ran lle y dylid lleoli datblygiadau a pham.  Rhaid gwneud penderfyniadau cynllunio mewn modd amserol, gyda mewnbwn effeithiol gan arbenigwyr ac ymgyngoreion eraill ac yn unol â pholisïau cynlluniau mabwysiedig.  Mae gorfodi'r gwaith o reoli cynlluniau mewn modd effeithiol yn sicrhau bod datblygiadau'n elwa ar y mewnbwn arbenigol hwn a'u bod yn cydymffurfio â dyheadau cymunedau.

Mae'r Fframwaith Perfformiad Cynllunio yn darparu mewnwelediad i berfformiad gweithredol effeithiol y system gynllunio yng Nghymru. Gall helpu i fonitro a deall effeithiau newidiadau o ran deddfwriaeth a pholisi wrth iddynt ddigwydd.  Gan weithio gyda'r holl randdeiliaid, yn enwedig yr awdurdodau cynllunio lleol ac ymgyngoreion, mae'r system hon o hunanfyfyrio a hunanwella parhaus yn galluogi'r gwasanaeth cynllunio i gyflawni'r dyfodol rydym ni - a chenedlaethau'r dyfodol - yn ei haeddu.

**Julie James AC**
**Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Rhagfyr 2019**

## 1 – Y CYD-DESTUN

### Adroddiadau Perfformiad Blynyddol – cefndir

Hwn yw'r pumed Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019 ac yn seiliedig ar yr Adroddiadau Perfformiad Blynyddol a gyflwynwyd gan awdurdodau cynllunio lleol i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2019. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried perfformiad gweithredol y system gynllunio, a'r tueddiad ar gyfer perfformiad, ar sail gwybodaeth a gasglwyd gan ddefnyddio'r Fframwaith Perfformiad Cynllunio a chynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, yr Arolygiaeth Gynllunio, awdurdodau cynllunio lleol ac ymgyngoreion statudol.

Datblygodd y Fframwaith Perfformiad Cynllunio o'r Ymgynghoriad Cynllunio Cadarnhaol a gyhoeddwyd yn 2013, a gynigiodd gyflwyno cyfres gyson o ddangosyddion perfformiad a chyflwyno adroddiad blynyddol arnynt. Mae'r Fframwaith Perfformiad yn cynnwys tair rhan:

- Tabl perfformiad, sy'n rhestru'r dangosyddion a'r targedau y'u cytunwyd ag awdurdodau cynllunio lleol a pherfformiad pob awdurdod yn erbyn y rhain

- Yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, a gaiff ei baratoi gan bob awdurdod cynllunio lleol, sy'n myfyrio ar ei berfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol a aeth heibio ac sy'n nodi meysydd o welliant sy'n arfer gorau ac

- Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan, a gaiff ei baratoi gan Lywodraeth Cymru. Nod yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan yw darparu trosolwg o weithrediad y system, a nodi unrhyw angen am newid deddfwriaethol neu weithredol ar sail perfformiad y gwasanaeth cynllunio dros gyfnod o 12 mis.

Deuir i gasgliadau am weithrediad y system gynllunio yng Nghymru er mwyn llywio newidiadau posibl i ddeddfwriaeth, polisi Llywodraeth Cymru a chanllawiau yn y dyfodol. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan hefyd yn galluogi rhanddeiliaid i gael mewnolwg i'r problemau a'r arferion gweithredol sydd ar waith o fewn awdurdodau cynllunio lleol.

### Rhagor o wybodaeth

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Perfformiad Cynllunio o'r ffynonellau canlynol:

- Mae tabl y Fframwaith Perfformiad ar gyfer y cyfnod 2018/19 yn **Atodiad A**.

- Mae ein gwefan yn nodi targedau presennol a'r adroddiadau diweddaraf a gyhoeddwyd ar berfformiad, y dangosyddion perfformiad a'r targedau i adrodd arnynt, canllawiau ar ffurf a chynhyrchiad adroddiadau perfformiad blynyddol ac yn cynnwys adroddiadau blynyddoedd blaenorol er mwyn dadansoddi'n gymharol.

## 2 – GWASANAETHAU CYNLLUNIO A DDARPERIR GAN LYWODRAETH CYMRU

**Busnes Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru**

Cafodd pwerau newydd eu datganoli i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Cymru 2017, gan eu galluogi i roi caniatâd ar gyfer amrywiaeth o ddatblygiadau o 1 Ebrill 2019 ymlaen. Cyflwynwyd is-ddeddfwriaeth a phrosesau i alluogi penderfyniadau gan Weinidogion Cymru ar gyfer:

- Gorsafoedd cynhyrchu trydan ar y môr ac ar dir sy'n cynhyrchu hyd at 350MW o ynni, yn ogystal â gwifrau trydanol cysylltiedig hyd at 132KV, heb gyfyngiad uwch ar gyfer gwynt ar y môr
- Rheoli porthladdoedd a chreu awdurdodau porthladdoedd
- Trwyddedau morol a
- Chadwraeth forol ar y môr.

Cyflwynodd Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr ei adroddiad terfynol ar symleiddio a chydgrynhoi deddfwriaeth gynllunio Cymru i Weinidogion Cymru ar 30 Tachwedd 2018. Cyhoeddwyd ymateb interim i argymhellion Comisiwn y Gyfraith ym mis Mai 2019. Mae gwaith yn parhau i ddarparu ymateb llawn i adroddiad ac argymhellion Comisiwn y Gyfraith ac fe'u disgwylir ddechrau 2020. Bydd yr ymateb manwl i adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn ffurfio sylfaen i waith yn y dyfodol i wella mynediad i ddeddfwriaeth gynllunio Cymru.

Cyhoeddwyd Rhifyn 10 o Bolisi Cynllunio Cymru ym mis Rhagfyr 2018. Mae'n ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ym mhob agwedd ar bolisi cynllunio ac yn sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu at egwyddorion datblygu cynaliadwy. Cyflwynodd y gwaith o greu lleoedd fel ein dull o gynllunio yng Nghymru.

Mae'r gwaith o greu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru wedi parhau. Rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2018, ymgynghorwyd ar faterion y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r papur opsiynau ac ystyriwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad wrth baratoi drafft cyntaf y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Cyhoeddwyd drafft o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ym mis Awst 2019 er mwyn ymgynghori yn ei gylch. Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd amrywiaeth o weithdai a digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn codi ymwybyddiaeth o rôl y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ymysg rhanddeiliaid a chymunedau a'u gwahodd i gymryd rhan yn y gwaith o'i greu.

Rydym yn parhau i gefnogi'r gwaith o greu Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru. Mabwysiadodd Cyngor Sir Powys ei Gynllun Datblygu Lleol ym mis Ebrill 2018. Mabwysiadodd Cyngor Sir Abertawe ei Gynllun Datblygu Lleol ym mis Chwefror 2019. Erbyn hyn, mae 23 o'r 25 o awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol, ac mae Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi paratoi'r unig Gynllun Datblygu Lleol ar y cyd hyd yn hyn. Mabwysiadodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yr adolygiad cyntaf o'i Gynllun Datblygu Lleol ym mis Chwefror 2019 ac mae 13 o'r 15 o awdurdodau cynllunio lleol, y disgwylir iddynt ddechrau adolygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol, wedi gwneud hynny.

Mae'r gwaith o baratoi Llawlyfr y Cynlluniau Datblygu Lleol wedi parhau, gan ymgorffori gwersi a ddysgwyd yn ystod y gwaith o baratoi'r gyfres gyntaf o Gynlluniau Datblygu Lleol.

Ymgynghorwyd ar y llawlyfr drafft yn ystod haf 2019. Mae diwygiadau wrthi'n cael eu gwneud yn dilyn yr ymgynghoriad a chaiff fersiwn derfynol ei chyhoeddi ddechrau 2020.

Mae rhyng-gysylltedd cynyddol y gwaith o gynllunio â meysydd rheoliadol a pholisi eraill yn golygu y caiff penderfyniadau cynllunio eu gwneud yng nghyd-destun nifer gynyddol o ffactorau a phroblemau. Mae angen mwy o waith ar hyn er mwyn paratoi ceisiadau i'w cymeradwyo. Fodd bynnag, nid yw'r ffi a godir ar ymgeiswyr ar gyfer cymeradwyo'r ceisiadau hyn wedi codi o gwbl ers 2015.

Gwnaed gwaith cynnar i ddeall gwir gost penderfynu ar geisiadau mewn partneriaeth â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru yn 2018. Nododd hyn na chodir ffi ar geisiadau llai o faint, megis mân geisiadau a cheisiadau gan ddeiliaid tŷ, sy'n adlewyrchu'r gost i awdurdodau cynllunio lleol am benderfynu arnynt. Yn yr hirdymor, ein bwriad yw symud tuag at fodel mwy cost-niwtral ar gyfer ffioedd cynllunio, ond mae angen gwaith pellach i gadarnhau costau darparu gwasanaethau cynllunio. Wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, yn y byrdymor, rydym yn bwriadu ymgynghori ar gynigion am gynnydd cyffredinol yn y ffioedd ddechrau 2020.

**Penderfyniadau cynllunio a wnaed gan Lywodraeth Cymru**

| Math o achos | Targed<br>80% neu fwy<br>60% – 80%<br>Llai na 60% | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Achosion dyfarnu costau | o fewn 84 o ddiwrnodau | 100%<br>3 o 3 | 100%<br>4 o 4 | 100%<br>4 o 4 | 100%<br>6 o 6 |
| Penderfyniadau ar p'un ai i alw ceisiadau i mewn ai peidio | o fewn 21 o ddiwrnodau | 95%<br>38 o 40 | 89%<br>25 o 28 | 83%<br>20 o 24 | 68%<br>17 o 25 |
| Achosion Cyfarwyddyd Hysbysu | o fewn 21 o ddiwrnodau | 100%<br>7 o 7 | 60%<br>3 o 5 | 66%<br>2 o 3 | 37.5%<br>3 o 8 |
| Gorchmynion Caniatâd Datblygu – diwygiadau amherthnasol | o fewn 84 o ddiwrnodau | | | 100%<br>2 o 2 | Amh.<br>0 o 0 |
| Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol | o fewn 252 o ddiwrnodau | | | 100%<br>1 o 1 | 100%<br>3 o 3 |
| Apeliadau a adferwyd ac achosion a alwyd i mewn | o fewn 84 o ddiwrnodau | 62%<br>5 o 8 | 0%<br>0 o 5 | 50%<br>4 o 8 | 50%<br>4 o 8 |
| Cadarnhad o orchmynion prynu gorfodol | o fewn 84 o ddiwrnodau | 100%<br>3 o 3 | 100%<br>4 o 4 | Amh.<br>0 o 0 | Amh.<br>0 o 0 |
| Ceisiadau sgrinio asesiadau o'r effaith amgylcheddol | o fewn 21 o ddiwrnodau | 86%<br>19 o 22 | 88%<br>8 o 9 | 100%<br>6 o 6 | 100%<br>6 o 6 |
| Cadarnhad o ganiatadau adeilad rhestredig a chaniatadau ardal gadwraeth | o fewn 84 o ddiwrnodau | 93%<br>28 o 30 | 100%<br>26 o 26 | 96%<br>29 o 30 | 91%<br>30 o 33 |
| Ceisiadau'r Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd | o fewn 112 o ddiwrnodau | Amh.<br>0 o 0 | Amh.<br>0 o 0 | 100%<br>1 o 1 | Amh.<br>0 o 0 |
| Ceisiadau nad ydynt yn rhai arbenigol (cyfarwyddiadau Erthygl 4 (cadarnhad), tystysgrifau esemptiad carafanau a gwersylla, gwaredu tir rhandiroedd, ceisiadau gorfodi a cheisiadau dirymu) | O fewn 84 o ddiwrnodau | | | 98%<br>86 o 97 | 98%<br>49 o 50 |

**Ffigur 1 – Ystadegau perfformiad llwyth achosion Llywodraeth Cymru**

Gwnaeth y Gyfarwyddiaeth Gynllunio benderfyniad ar 139 o achosion, a chyflwynwyd 118 o'r rhain o fewn eu dyddiad targed, sy'n cynrychioli cyfradd ganrannol o 84.9% ar gyfartaledd.  Mae'r prydlondeb ar gyfer penderfynu ar yr achosion hyn yn cyrraedd y targedau a osodwyd ar y cyfan, ac mae wedi gwella ers y llynedd.

Fodd bynnag, o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae’r perfformiad ar benderfyniadau mewn perthynas â cheisiadau galw i mewn a cheisiadau a gyfeiriwyd at Weinidogion Cymru o dan y Cyfarwyddyd Hysbysu wedi dirywio. Yn dilyn adolygiad mewnol o'r gweithdrefnau ym mis Mawrth 2019, rhoddwyd ar waith fesurau cadarn newydd i olrhain gwaith achos ynghyd â chyfarfodydd wythnosol er mwyn nodi materion allweddol wrth iddynt ddod i'r amlwg a dyrannu adnoddau ac arbenigedd yn briodol.  Rhagwelir y bydd y newidiadau gweithdrefnol hyn yn arwain at welliant yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.

**Penderfyniadau cynllunio a wnaed gan yr Arolygiaeth Gynllunio (Cymru) ar ran Llywodraeth Cymru**

| Dangosydd | Targed | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Apeliadau y penderfynwyd arnynt drwy sylwadau ysgrifenedig (Rhan 1 a Rhan 3 o Reoliadau 2017) | 85% mewn wyth wythnos | | 97.8% | 91.67% | 92.5% |
| | 90% mewn wyth wythnos (o fis Tachwedd 2018) | | | | 98.8% |
| Apeliadau y penderfynwyd arnynt drwy sylwadau ysgrifenedig (Rhan 4) | 85% mewn 15 wythnos | | | 98.85% | 92.5% |
| | 85% mewn 14 wythnos (o fis Tachwedd 2018) | | | | 81.2% |
| Apeliadau y penderfynwyd arnynt drwy wrandawiadau | 85% mewn 22 wythnos | 91.9% | 92.6% | 100% | |
| | 85% mewn 21 wythnos (o fis Tachwedd 2017) | | | 87.50% | 93.5% |
| Apeliadau y penderfynwyd arnynt drwy ymchwiliadau | 85% mewn 30 wythnos | 100% | 72.7% | 100% | |
| | 85% mewn 29 wythnos (o fis Tachwedd 2017) | | | 100% | 0% |
| Apeliadau gorfodi y penderfynwyd arnynt drwy sylwadau ysgrifenedig | 85% mewn 28 wythnos | 100% | 100% | 100% | 91.7% |
| | 85% mewn 27 wythnos (o fis Tachwedd 2018) | | | | Amh. |
| Apeliadau gorfodi y penderfynwyd arnynt drwy wrandawiadau ac ymchwiliadau | 85% mewn 41 wythnos | 88.9% | 84.6% | 95.65% | 100% |

**Ffigur 2 – Ystadegau perfformiad llwyth achosion Arolygiaeth Gynllunio Cymru**

Mae'r gwaith o gynllunio deddfwriaeth a pholisi yng Nghymru wedi ymwahanu, ac yn parhau i ymwahanu yn gyflymach o ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio yn Lloegr.  Am y rheswm hwn, mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi cyfarwyddo swyddogion i ddechrau gwaith ar wasanaeth apeliadau arbennig newydd i Gymru.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddyfeisio'r ffordd fwyaf effeithiol ymlaen ar gyfer y sefydliad newydd a fydd ar waith erbyn diwedd tymor y Cynulliad presennol.  Yn y cyfamser, bydd tîm yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru yn parhau i ddarparu gwasanaethau apeliadau cynllunio yng Nghymru.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Cynhaliodd yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru sawl digwyddiad rhanddeiliaid bach i asiantau a swyddogion awdurdodau cynllunio lleol yn ystod y cyfnod adrodd, er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o'r materion y mae cwsmeriaid yn eu hwynebu a sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion cwsmeriaid. Cyflwynodd arolygwyr ar bob agwedd ar orfodi, gan gynnwys hysbysiadau, ymarferoldeb a pheryglon.

Fel canlyniad o'r sesiynau, mae'r rhesymau dros bob amod ynghlwm wrth ganiatâd wedi'u cynnwys bellach ynghyd â'r amod ar benderfyniadau, yn hytrach nag yng nghorff rhesymeg yr arolygydd.

Siaradodd Pennaeth yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru mewn cynadleddau a chynhaliodd sesiynau gydag aelodau o bwyllgorau cynllunio awdurdodau cynllunio lleol, gan roi cipolwg ar ddull arolygydd o ystyried a gwneud penderfyniadau. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys Cynhadledd Gorfodi RTPI Cymru a sesiynau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir Ynys Môn.

Adborth gan gwsmeriaid

Yn ôl yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru, mae'r adborth gan gwsmeriaid, yn gyffredinol, yn parhau i fod yn gadarnhaol. Cafodd nifer isel o gwynion mewn perthynas â gweinyddu apeliadau, ac arweiniodd ansawdd penderfyniadau'r arolygydd at gyflawni dros 99% o waith achos yn rhydd rhag problemau. Yn ystod y flwyddyn, cafodd yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru adborth yn nodi bod canfyddiad bod y sawl a oedd â diddordeb dan anfantais mewn digwyddiadau cyhoeddus.  Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru wedi gweithio gyda Chymorth Cynllunio Cymru i gynnal digwyddiadau er mwyn i gynghorau cymuned a chynghorau tref fynd i'r afael â hyn.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru'n parhau i gyhoeddi'r holl ddogfennaeth apelio i'r Porth Gwaith Achos Apeliadau at ddibenion tryloywder, ac ychwanegir dyddiad targed y Gweinidogion am benderfyniad ar apêl at lythyron dyddiad dechrau amserlen pob apêl, er mwyn darparu rhywfaint o sicrwydd pan fydd y sawl sydd ynghlwm wrth apêl yn gallu disgwyl canlyniad. Cyflwynwyd hyn hefyd mewn ymateb i adborth gan gwsmeriaid.

Gwelliant parhaus

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru yn cynnal digwyddiad hyfforddi blynyddol i bob arolygydd, ac mae arolygwyr yng Nghymru wedi cael hyfforddiant arbennig ym meysydd systemau draenio cynaliadwy a materion dylunio.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru wedi cyflawni ei thargedau yn fras, neu wedi rhagori arnynt, am gyfnod parhaus.  Yn ogystal â hynny, mae'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i nodi cyfleoedd i gyflymu'r broses gynllunio ymhellach.  Ar hyn o bryd,

mae'r gwaith hwn yn cynnwys ymchwilio i'r posibilrwydd o ffurfio panel o arolygwyr i archwilio cynllun datblygu lleol ac adolygu ffurf adroddiadau i Weinidogion Cymru.

Yn gydnabyddiaeth am y perfformiad da hwn a ddangoswyd, adolygwyd y targedau a osodwyd gan Weinidogion Cymru yn nhrydydd chwarter y flwyddyn er mwyn gosod safonau uwch. Fodd bynnag, methwyd â chyflawni sawl un o'r targedau diwygiedig:

- **Apeliadau y penderfynwyd arnynt drwy ymchwiliadau**. Ers cyflwyno deddfwriaeth newydd sy'n llywodraethu'r broses apelio, mae nifer yr ymholiadau a gynhelir yn isel. Penderfynwyd ar ddau achos ymchwiliad yn ystod y flwyddyn a methodd y penderfyniad ar un o'r rhain a gyhoeddwyd i gyflawni'r targed. Cafwyd oedi yn sgil gohirio'r ymchwiliad oherwydd salwch.

- **Apeliadau y penderfynwyd arnynt drwy sylwadau ysgrifenedig (Rhan 4)**. Cyhoeddwyd 15 o apeliadau, wedi'u huno yn un, un wythnos ar ôl y targed diwygiedig. Arweiniodd anghysondebau gweinyddol at gyhoeddi'r penderfyniad ar ôl y terfyn amser a nodwyd. Mae camau wedi'u cymryd i liniaru'r perygl i hyn ddigwydd yn y dyfodol, gan gynnwys atgyfnerthu cyfarwyddiadau gweithdrefnol mewnol a chofnodi'r gwersi a ddysgwyd.

Yn ystod y flwyddyn, lansiodd yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru wefan a ddatblygwyd er mwyn gweld ac olrhain ceisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Roedd y wefan yn seiliedig ar y templed ar gyfer gwefan y Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru yw'r corff apeliadol a ffefrir ar gyfer llawer o feysydd polisi Llywodraeth Cymru o hyd. Mae'n prosesu gwaith achos mewn materion trwyddedu amgylcheddol, hawliau tramwy a gwaith achos tir comin a dulliau apelio newydd, gan gynnwys apeliadau systemau draenio cynaliadwy.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru adroddiad yr arolygydd ar ffordd liniaru arfaethedig yr M4 i Weinidogion Cymru a chynhaliodd ymchwiliad i Is-ddeddfau Gwialen a Lein (Eogiaid a Brithyllod y Môr) Cymru 2017. Anfonwyd llythyr o ddiolch a chydnabyddiaeth am y ffordd agored, deg a diduedd y cafodd yr ymchwiliad i'r is-ddeddfau ei drin i'r Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru gan Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cyhoeddi ei phenderfyniad. Yn ogystal â hynny, cyhoeddwyd adroddiadau'r arolygydd ar dri chais am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol i Weinidogion Cymru eu hystyried.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru yn disgwyl hyblygrwydd llwyr ar draws pob gwaith achos gan arolygwyr a staff cymorth er mwyn gwella ystwythder a gwydnwch. Mae Cynllun Busnes 2019/20 yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru yn nodi sut y caiff hyn ei gyflawni.

Yn 2017, dechreuodd yr Arolygiaeth Gynllunio ar raglen drawsffurfio, a'i nod oedd sicrhau gwelliannau ar draws pobl, prosesau a phlatfformau. Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru yn elwa ar elfen Trawsnewid Darpariaeth Weithredol y rhaglen. Bydd hyn yn disodli'r system gwaith achos bresennol a'r Porth Gwaith Achos Apeliadau.

# 3 – PERFFORMIAD YMGYNGOREION STATUDOL


Mae'r adran hon yn ystyried perfformiad ymgyngoreion statudol wrth hybu gweithrediad llyfn y system gynllunio yng Nghymru.

Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn gosod dyletswydd ar ymgyngoreion statudol i ddarparu ymateb o sylwedd ar gyfer ymgynghoriadau cyn ymgeisio am ddatblygiadau mawr ac ar gyfer ymgynghoriadau gan awdurdodau cynllunio lleol ar geisiadau cynllunio a gyflwynir.

Diffinnir ymgyngoreion statudol yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd) fel y sefydliadau hynny y dylid eu hysbysu ynghylch cynigion datblygu yn ystod y camau cyn ymgeisio ac ôl-ymgeisio, er mwyn ystyried eu harbenigedd arbenigol mewn agweddau penodol ar y cynigion. Gall yr arbenigedd technegol a'r mewnwelediad a gynigir gan eu hymatebion i ymgynghoriadau gael dylanwad mawr ar bennu ceisiadau cynllunio.

Dyma'r drydedd flwyddyn yr ydym wedi adrodd ar berfformiad gweithredol ymgyngoreion statudol. Mae Gorchymyn 2012 yn nodi'r amserlen ar gyfer cyflwyno ymateb o sylwedd.

### YMGYNGHORIADAU CYN YMGEISIO




**Ffigur 3 – Canran yr ymgynghoriadau cyn ymgeisio yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserau gofynnol, fesul grŵp ymgyngoreion**


Dengys Ffigur 3 y perfformiad cyffredinol ar draws pum grŵp o ymgyngoreion statudol. Mae'r grŵp "arall" yn cynnwys Glandŵr Cymru, yr Awdurdod Glo, Network Rail, Chwaraeon Cymru a'r Ymddiriedolaeth Theatrau. Mae grŵp "Llywodraeth Cymru" yn cynnwys Cadw yn ogystal â chyfarwyddiaethau Amaethyddiaeth a Phriffyrdd Llywodraeth Cymru.

Yn gyffredinol, roedd y perfformiad wedi gwella ar draws mwyafrif y grwpiau o'i gymharu â'r cyfnod adrodd diwethaf.

Yn debyg i'r llynedd, cafodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a chwmni Severn Trent Water ymateb gan 100% o'r rheiny a wahoddwyd i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau cyn-ymgeisio yn ystod y cyfnod adrodd. Yn ogystal â hynny, cafwyd cyfradd ymateb prydlon o 100% i'r ymgynghoriadau yn ystod y cyfnod adrodd gan Dŵr Cymru, Tîm Tir Amaethyddol Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Theatrau.

Nid yw'r awdurdodau priffyrdd lleol wedi cyflawni'r gyfradd ymateb uchel i ymgynghoriadau cyn-ymgeisio a osodwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cwympodd y perfformiad ar ymateb yn brydlon i'r ymgynghoriadau hyn o 94.1% i 82.6%. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw'r trosolwg hwn o'r perfformiad yn adlewyrchu'n llawn y sefyllfa gyffredinol mewn adrannau priffyrdd ledled Cymru gan y methodd 13 o'r 22 o awdurdodau priffyrdd â chyflwyno eu hadroddiadau blynyddol ar berfformiad ymgynghoriadau cyn-ymgeisio i Lywodraeth Cymru.

## YMGYNGHORIADAU AR GEISIADAU CYNLLUNIO




**Ffigur 4 – Canran yr ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserau gofynnol, fesul grŵp ymgyngoreion**

Mae'r perfformiad ar ymatebion i ymgynghoriadau statudol ar geisiadau cynllunio wedi cyrraedd yr un safon perfformiad â'r llynedd, neu wedi rhagori arni, ar gyfer pob elfen ac eithrio awdurdodau priffyrdd lleol. Yn ogystal â hynny, mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, cwmni Severn Trent Water, Tîm Tir Amaethyddol Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Theatrau wedi cyflawni amseroedd ymateb rhagorol ar geisiadau cynllunio, gyda 100% yn ymateb o fewn y cyfnodau amser statudol. Ymatebodd Dŵr Cymru i 7,088 o ymgynghoriadau o fewn y cyfnod adrodd a dim ond un o'r rhain oedd yn hwyr.

Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddyletswydd ar ymgyngoreion statudol i adrodd ar eu perfformiad o ran ymateb i ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio. Erbyn mis Tachwedd 2019, roedd y sefydliadau canlynol wedi methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd statudol hon yn ystod y cyfnod:

- Adran Briffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Adran Briffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Adran Gynllunio ac Adran Briffyrdd Cyngor Sir Gaerfyrddin
- Adran Gynllunio Cyngor Sir Ceredigion
- Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych
- Adran Gynllunio ac Adran Briffyrdd Cyngor Sir y Fflint
- Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn
- Adran Briffyrdd Cyngor Sir Fynwy
- Adran Gynllunio Cyngor Sir Benfro
- Adran Gynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Adran Briffyrdd Cyngor Sir a Dinas Abertawe
- Adran Gynllunio ac Adran Briffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Adran Briffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

Er mwyn i'r system gynllunio wneud penderfyniadau effeithiol ar sail gwybodaeth ar ddefnydd tir a chreu lleoedd, mae angen ceisio cyngor arbenigwyr yn y meysydd perthnasol. Ar y cyfan, mae'r rheiny sy'n ymgyngoreion statudol yn helpu i sicrhau y caiff y penderfyniadau cynllunio hyn eu gwneud ar sail gwybodaeth ac yn amserol.

Mae awdurdodau priffyrdd lleol yn perfformio'n waeth yn gyson o ran cyfnodau amser nag ymgyngoreion statudol eraill. Mae hyn yn siomedig gan fod awdurdodau priffyrdd, yn wahanol i ymgyngoreion eraill, ac eithrio awdurdodau parciau cenedlaethol, yn ymgyngoreion mewnol yn hytrach nag allanol ar gyfer adrannau cynllunio. Mae sawl awdurdod cynllunio lleol yn adrodd bod diffyg adnoddau mewn adrannau llywodraeth leol eraill, ac yn enwedig mewn adrannau priffyrdd, yn effeithio ar eu gallu i gyflawni swyddogaethau rheoli datblygiadau yn amserol.

Diben y weithdrefn ymgynghori cyn-ymgeisio yw gwella a mireinio cynllunio er mwyn iddynt gydymffurfio'n well â disgwyliadau o ran polisi a disgwyliadau cymunedol cyn cyflwyno ceisiadau. Mae hyn yn gwella ansawdd y cais ac yn symleiddio'r broses ymgeisio ffurfiol. Pan wneir penderfyniadau i dynnu cyngor cyn-ymgeisio yn ôl, fel y'i gwelwyd yng Nghyngor Sir Powys, mae hyn yn tanseilio egwyddor y ddyletswydd statudol i gynnal ymgynghoriad cyn-ymgeisio a bydd yn arwain at broblemau yn ddiweddarach yn y broses.

O ran adrannau cynllunio, mae adnoddau a thasgau adrannau priffyrdd yn fater i'r awdurdod perthnasol. Ni ddylid tanbrisio effaith absenoldeb cyngor cyn-ymgeisio, neu oedi i'r broses o benderfynu ar geisiadau.

## 4 – PERFFORMIAD AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL


Mae'r system gynllunio'n hanfodol i weithrediad polisïau lleol ar gyfer yr amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol. Mae'r system gynllunio'n gyfrifol am y penderfyniadau defnydd tir ar gyfer y lleoedd y mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae ynddynt. Gwaith polisïau a phenderfyniadau cynllunio lleol yw cyflwyno canlyniadau i feysydd ar draws sbectrwm llywodraeth leol, gan gynnwys iechyd, llesiant, adfywio, hamdden, addysg a chwarae. Er mwyn i'r system gynllunio chwarae ei rhan yng ngweithrediad dyheadau lleol, rhaid iddi fod mewn cyflwr iach.

Mae'r adran hon yn adolygu perfformiad y 25 awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru, fel y'i mesurwyd gan y Fframwaith Perfformiad Cynllunio. Daw'r canlyniadau o'r tabl Fframwaith Perfformiad a gyhoeddwyd, sy'n ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019.


<u>Dangosyddion a thargedau newydd</u>

Ym mis Gorffennaf 2018, cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â chynrychiolwyr o Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru i adolygu dangosyddion a thargedau'r fframwaith perfformiad ac i ystyried newidiadau priodol. O ganlyniad i'r cyfarfod hwnnw, cyflwynwyd y dangosyddion newydd canlynol:

- **A gyflwynwyd cytundeb cyflenwi yn adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol i Lywodraeth Cymru ac a gytunwyd arno gyda hi?**





- **Gwyriad o ran adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol o'r dyddiadau a nodwyd yn y cytundeb cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd**




Ysgrifennodd cyn-Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig at yr awdurdodau cynllunio lleol ym mis Ionawr 2018 yn gofyn a oedd yr awdurdodau wedi ystyried cyd-gynhyrchu adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol, naill ai fel cynlluniau ar y cyd, neu gan ddefnyddio sylfaen dystiolaeth ar y cyd, fel modd o leihau costau wrth greu cynlluniau datblygu. Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn farn gref ymysg yr awdurdodau cynllunio lleol i adolygu a diwygio eu cynlluniau unigol eu hunain, ni waeth unrhyw arbedion ariannol posibl. O ystyried y pwyslais ar awdurdodau unigol yn creu eu cynlluniau, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet eto ym mis Mawrth 2018 yn dweud na fyddai'n derbyn unrhyw oedi yn y broses o adolygu'r Cynlluniau Datblygu Lleol o ganlyniad. Mae'r dangosyddion newydd hyn yn adlewyrchu disgwyliad Llywodraeth Cymru y gwneir diwygiadau i'r Cynlluniau Datblygu Lleol heb oedi.

- **Canran y ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig y penderfynwyd arnynt yn ystod y cyfnodau amser gofynnol**




Trafodwyd y targedau perfformiad hyn mewn egwyddor yn ystod y cyfarfod blaenorol ac fe'u cymhwyswyd i'r data perfformiad ar gyfer y cyfnod adrodd rhwng 2017 a 2018 i'w trafod yng nghyfarfod mis Gorffennaf 2018.  Ystyriodd y mynychwyr eu bod yn dargedau cyraeddadwy a rhesymol, a phan ddangosodd rhai o'r awdurdodau cynllunio lleol le i wella, roedd hyn yn adlewyrchu'r adnoddau a ddyrannwyd i'r gwaith hwn.

Adnoddau a chydnerthedd

Mae'r gwasanaeth cynllunio yn parhau i wynebu lleihad yn ei gyllideb o un flwyddyn i'r llall. Er mwyn rheoli cyllidebau heriol, caiff swyddi gwag y staff eu cadw ar agor, caiff rolau eu dileu ar ôl i'w deiliaid ymddeol ac, mewn rhai achosion, defnyddir gwyliau di-dâl i arbed costau yn ystod y flwyddyn.  Mae hyn yn effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir gyda phwysau difrifol yn ystod cyfnodau o absenoldeb y staff.  Mae'r awdurdodau cynllunio lleol yn greadigol o ran ceisio ffrydiau cyllido amgen ac yn enwedig am godi ffi am wasanaethau opsiynol sydd wedi'u halinio â'r broses gynllunio.  Mae llwyddiant amrywiol i hyn.

Mae sawl awdurdod cynllunio lleol yn dweud bod diffyg adnoddau o ran staff yn arwain at ganlyniadau difrifol yn eu gwasanaeth.  Mae'r rhain yn cynnwys Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn wynebu heriau o ran recriwtio swyddi gwag, yn enwedig ar gyfer rolau proffesiynol cynllunio lefel mynediad.  Mae sawl awdurdod cynllunio lleol bellach yn gofyn i'r rheiny nad ydynt yn swyddogion rheoli datblygu, megis timau gorfodi a blaen-gynllunio, i ymgymryd â llwyth gwaith rheoli datblygu (Cyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam). Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam  yn ystyried defnyddio'r rheiny nad ydynt yn gynllunwyr i ymdrin â rhywfaint o waith achos arferol.  Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gweithredu'r egwyddor hon i'r gwrthwyneb – gyda swyddogion rheoli datblygu yn ymgymryd â gwaith gorfodi a blaen-gynllunio.

Mae lleihad hirdymor yn nifer yr aelodau staff wedi arwain at bwyntiau methiant unigol a nodwyd ar berfformiad y gwasanaeth, er enghraifft ar gymwysiadau mawr (Cyngor Sir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) ac mewn gorfodi, cadwraeth a meysydd tirwedd (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy).  Mae problemau tebyg yng Nghyngor Sir a Dinas Abertawe.

Nodwyd hefyd fod yr amser a gymerir i ymgyngoreion mewnol ymateb i ymgynghoriadau yn broblem allweddol (Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Sir a

Dinas Abertawe). Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn datblygu gweithdrefnau newydd i geisio mewnbwn i'r ymgynghoriad cyn gynted â phosibl gan y rhanddeiliaid hynny. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hefyd yn creu grŵp ffocws i ystyried y problemau ac i wneud argymhellion.

Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gael adnoddau effeithiol er mwyn darparu'r gwasanaethau cynllunio y mae cymunedau'n eu disgwyl. I'r perwyl hwn, rydym yn gweithio ar gynyddu ffioedd cynllunio a byddwn yn ymgynghori ar gynigion am gynyddu ffioedd yn 2020. Dylai hyn helpu rhywfaint i fynd i'r afael â'r diffyg adnoddau yn yr awdurdodau cynllunio lleol. Fodd bynnag, gellir dim ond defnyddio ffioedd cynllunio i adfer y costau yr aethpwyd iddynt ar gyfer penderfynu'n uniongyrchol ar geisiadau cynllunio. Yn y bôn, penderfyniad pob awdurdod cynllunio lleol yw lefel y gwasanaeth a gynigir y tu hwnt i'r gofyniad cyfreithiol yn ogystal â swm y cyllid a ddarperir ar ei gyfer.

<u>Meysydd o arloesedd</u>

Unwaith eto, mae awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru wedi dangos creadigrwydd ymysg trallod yn ystod y cyfnod adrodd hwn, gan daro ar ffyrdd newydd a gwahanol o gynnal eu gwaith a sicrhau gwelliant parhaus i'r gwasanaeth. Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, tynnir sylw at yr enghreifftiau hyn fel “ymarfer da” gan yr awdurdodau cynllunio lleol priodol, er mae'n bosibl na fydd yr hyn sy’n gweithio'n dda i un awdurdod yn gweithio cystal i awdurdodau eraill. Estynnwn wahoddiad i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y camau gweithredu canlynol sydd wedi cael eu dilyn, neu sydd wrthi'n cael eu dilyn gan eu cyfoedion.

**Ffrydiau ariannu eraill –** Yn debyg i'r llynedd, mae awdurdodau cynllunio lleol yn parhau i ymchwilio i opsiynau i godi tâl am ddarparu gwaith opsiynol "gyda gwerth ychwanegol" ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau cynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfrannu gwaith at wasanaeth rheoli asedau'r cyngor, er enghraifft o ran darparu cyngor yn arwain at y gwaith o adeiladu datblygiad ynni solar ar dir sy'n eiddo i'r cyngor (Cyngor Sir Fynwy)
- Uwchraddio ceisiadau deiliaid tai yn gyflym (Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam). Mae gwasanaeth cyflym Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi ennill ei blwyf ac mae wedi bod wrthi ers sawl blynedd, er mai prin yw llwyddiant y cynllun hwn yn sgil y gost sefydlog ar gyfer cyngor cyn-ymgeisio a bennir gan Lywodraeth Cymru.
- Cynlluniau gwerth ychwanegol tebyg ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig, mân geisiadau a thystysgrifau cyfreithlondeb a dilysrwydd cyn-cyflwyno (Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf)
- Codi tâl am drawsgludo a chadarnhau pridiannau tir (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot)
- Defnyddio Cytundebau Perfformiad Cynllunio yn effeithiol er mwyn sicrhau adnoddau ychwanegol gan ddatblygwyr i gynorthwyo gwaith ar gynlluniau penodol; Yn ôl Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, mae hyn wedi bod yn hynod effeithiol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wrthi'n ystyried ei Gytundeb Perfformiad Cynllunio cyntaf.

**Defnyddio gwasanaethau TGCh i sicrhau arbedion effeithlonrwydd** - eto, effeithiol, mae nifer o awdurdodau cynllunio lleol wedi adrodd eu bod yn diweddaru eu system TGCh er mwyn hwyluso gwaith mwy effeithiol. Mae'r awdurdodau cynllunio lleol canlynol naill ai

yn y broses o gaffael systemau TGCh newydd neu gwnaethant hynny yn ystod y cyfnod adrodd:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Gwynedd
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi ymgysylltu'n helaeth â'u cydweithwyr yng Nghyngor Sir a Dinas Abertawe, sy'n gweithredu'r un system, er mwyn sicrhau y caiff y system TGCh newydd ei defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon ac y ceir gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad yn effeithiol ohoni.

Nid yw'n glir i ba raddau y mae awdurdodau cynllunio lleol eraill a brynodd system TGCh newydd wedi ymgysylltu â'i gilydd neu wedi ceisio cyngor gan awdurdodau sydd wedi caffael yn y gorffennol. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell i awdurdodau cynllunio lleol gaffael ar y cyd pan fydd yn bosibl, er mwyn sicrhau y gellir gweithredu ar ffurf consortiwm gyda grym prynu i negodi gwaith uwchraddio TGCh, ac er mwyn sicrhau y gellir addasu'r system TGCh berthnasol i adlewyrchu anghenion unigryw'r system gynllunio yng Nghymru.

**Cydweithio uniongyrchol –** mae'r awdurdodau cynllunio lleol yn parhau i ymchwilio i'r ffyrdd mwyaf effeithiol o wneud y defnydd mwyaf o arbenigedd arbenigol neu adnoddau cyfyngedig trwy gydweithio. Mae gwasanaethau gwastraff a mwynau gogledd Cymru (Cyngor Sir y Fflint) a gorllewin Cymru (Cyngor Sir Caerfyrddin) yn parhau i ddarparu arbenigedd ar eu meysydd ar sail ranbarthol, er mwyn cynorthwyo'r gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau cynllunio a'u gorfodi.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Sir Gwynedd yn parhau i gynnal Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd i weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol ar ran y ddau awdurdod cynllunio lleol ac mae'r ddau wedi cytuno ar estyniad i'r drefn lwyddiannus hon o weithio ar y cyd. Mae gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro fynediad i arbenigwr ecoleg a gwasanaethau cyfreithiol Cyngor Sir Penfro ac mae'r ddau awdurdod cynllunio lleol yn datblygu sylfaen dystiolaeth ar y cyd ar gyfer diwygio'r Cynllun Datblygu Lleol a chreu Canllawiau Cynllunio Atodol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Sir Fynwy hefyd yn cydweithio ar sylfaen dystiolaeth ar y cyd i adolygu eu Cynllun Datblygu Lleol. Yn ogystal â hynny, mae Cyngor Sir Fynwy wedi sicrhau cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gyfer darparu arbenigedd treftadaeth. Mae'r awdurdodau parciau cenedlaethol wedi cymryd rhan mewn cynllun cyfnewid sgiliau, gan gyfnewid arbenigedd ar ecoleg a choedyddiaeth. Yn y cyfamser, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn rhannu gwasanaeth TGCh craidd cyffredin.

Mae Grŵp Swyddogion Polisi Gogledd Cymru, sy'n cynnwys pob un o'r chwe awdurdod cynllunio lleol yng ngogledd Cymru, yn parhau i ddatblygu ei waith ar safoni arferion a gweithdrefnau lleol ar gyfer ceisiadau amgylchedd naturiol a threftadaeth.

**Dadansoddi perfformiad a gwelliant parhaus –** Mae sawl awdurdod cynllunio lleol wedi gweithredu er mwyn cyflawni'n well yn erbyn dangosyddion a thargedau'r Fframwaith Perfformiad Cynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn adolygu gweithdrefnau ei bwyllgor o ystyried y nifer uchel o benderfyniadau a wnaed ganddo yn groes i gyngor swyddogion.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn symud yr amserlenni ar gyfer penderfyniadau ar geisiadau gan ddeiliaid tŷ mor agos â phosibl ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori statudol a hyrwyddo.
- Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymgymryd â hyfforddiant gydag aelodau ar y penderfyniadau a wneir yn groes i gyngor swyddogion, ac y mae wedi nodi a mynd i'r afael â gwendidau yng nghywirdeb ei waith o adrodd ar berfformiad.
- Mae Cyngor Sir y Fflint hefyd yn cynnal hyfforddiant i'w haelodau ar benderfyniadau a wneir yn groes i gyngor swyddogion a pherfformiad ar y cam apelio, o ystyried y cafodd mwyafrif yr apeliadau eu cadarnhau yn ystod y cyfnod adrodd yn sgil gwrthod cyngor croes i gyngor swyddogion.
- Mae Cyngor Sir Gwynedd yn dweud bod cynllun dirprwyo newydd wedi lleihau nifer y ceisiadau sy'n mynd gerbron y pwyllgor yn sylweddol, gan gyflymu'r broses benderfynu felly.
- Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnal adolygiad o'i swyddogaeth cynllunio yn 2020 i wella ei berfformiad a'i wydnwch. Mae hyn yn cynnwys tîm rheoli prosiect i wella ei berfformiad ar y dangosyddion gorfodi.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful hefyd yn argymell newidiadau yng ngweithdrefnau'r pwyllgor, yn sgil cyfeirio 50% o'r ceisiadau y penderfynwyd arnynt gan y pwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd at ymweliad â'r safle, gan effeithio'n negyddol ar brydlondeb y penderfyniadau.
- Mae Cyngor Sir Fynwy hefyd yn cynnal adolygiad system o'i swyddogaeth gorfodi yn dilyn perfformiad annigonol yn ystod y cyfnod adrodd.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn adolygu ei safbwynt ar geisiadau hirdymor sefydlog, yn enwedig pan fydd ymgeiswyr yn methu â darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i benderfynu ar y ceisiadau hynny.
- Mae Cyngor Sir Penfro yn defnyddio fforwm ei asiantau i fynd i'r afael â materion ynghylch ansawdd y cyflwyniadau.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn bwriadu defnyddio technegau mwy effeithiol i reoli ceisiadau hirdymor.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd yn bwriadu adolygu ei gynllun dirprwyo i leihau'r nifer sylweddol o geisiadau sy'n cael eu penderfynu gan y pwyllgor, sy'n anghymesur o fwy nag awdurdodau cynllunio lleol eraill. Yn ogystal â hynny, mae'n ceisio mynd i'r afael â phenderfyniadau'r pwyllgor sy'n groes i gyngor swyddogion gan fod y rhain yn arwain at berfformiad ansafonol ar yr adeg apelio. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno Canllawiau Cynllunio Atodol yn ogystal â hyfforddiant i aelodau, gan gynnwys trafod costau apelio.

Ymhlith y gwaith arall i sicrhau gwelliant parhaus mewn gwasanaethau cynllunio:

- Mae Cyngor Caerdydd yn dadansoddi ac yn gweithredu canfyddiadau'r Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn effeithiol, yn enwedig ar gyfer cynllunio gwaith. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio incwm ffioedd i lywio cyfarfodydd cyllid misol er mwyn ystyried gosod targedau o ran incwm.
- Mae Cyngor Sir Gwynedd hefyd yn bwriadu cynnal adolygiad gwasanaeth cyffredinol o'i swyddogaethau rheoli datblygu, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithlon ac yn effeithiol.
- Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi mabwysiadu cynlluniau bro Crucywel a'r Gelli Gandryll fel Canllawiau Cynllunio Atodol, ac mae'n gweithio gyda chymunedau i gyflwyno cynllunio ar gyfer Talgarth, Aberhonddu, Llansyddid, Llangatwg a Llangynidr.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hefyd yn gwneud gwaith ar gynllun bro ar gyfer Abergele.
- Mae Cyngor Sir Fynwy yn cyflwyno gweithdrefnau newydd i wahodd aelodau lleol a rhanddeiliaid allweddol y pwyllgor cynllunio i gyfarfodydd cyn-ymgeisio ffurfiol gydag ymgeiswyr.
- Mae Cyngor Sir Gwynedd wedi mabwysiadu strategaeth orfodi.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn creu matrics hyfforddiant a sgiliau'r staff er mwyn gwella hyblygrwydd a gwydnwch.

## TROSOLWG O BERFFORMIAD CYFARTALOG CYMRU YN ERBYN YR HOLL DDANGOSYDDION


| MESUR | DA | GWEDDOL | GWELLA | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llunio cynllun** | | | | | | | | |
| 1. A oes cynllun datblygu cyfredol ar waith sydd o fewn cyfnod y cynllun? | Oes | | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes |
| 2. Gwyriad o ran paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol o'r dyddiadau a nodwyd yn y cytundeb cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd | <12 | 13–17 | 18+ | 47 | 39 | 58 | 67 | 73 |
| 3. A gyflwynwyd cytundeb cyflenwi i adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol i Lywodraeth Cymru ac a gytunwyd arno gyda hi? | Do | | Naddo | | | | | Do |
| 4. Gwyriad o ran adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol o'r dyddiadau a nodwyd yn y cytundeb cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd | <3 | | 4+ | | | | | 1 |
| 5. Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi eu llunio yn dilyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol | Oes | | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes |
| 6. Nifer yr awdurdodau cynllunio lleol sydd â chyflenwad pum mlynedd neu fwy o dir ar gyfer tai | | | | 7 | 8 | 6 | 7 | 6 |
| **Effeithlonrwydd** | | | | | | | | |
| 7. Canran y ceisiadau "mawr" y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol | 60+ | 60.1–59.9 | <50 | 24 | 35.3 | 59 | 67.4 | 67.8 |
| 8. Yr amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau "mawr", mewn diwrnodau | | | | 206 | 212.7 | 250.2 | 240.1 | 231.8 |
| 9. Canran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol | 80+ | 70.1–79.9 | <70 | 72.7 | 76.6 | 86.7 | 88.5 | 88.1 |
| 10. Yr amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau, mewn diwrnodau | <67 | 67–111 | 112+ | 76.4 | 77.2 | 75.9 | 80.7 | 77.2 |

| MESUR | DA | GWEDDOL | GWELLA | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 11. Canran y ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol | 80+ | 70.1–79.9 | <70 | 40.8 | 38.1 | 63.3 | 65.4 | 74.7 |
| **Ansawdd** | | | | | | | | |
| 12. Canran y penderfyniadau a wnaed gan aelodau yn erbyn cyngor swyddog | <5 | 5–8.9 | 9+ | 10.1 | 9.0 | 10.9 | 8.6 | 9.2 |
| 13. Canran yr apeliadau a gafodd eu gwrthod | 66+ | 55.1–65.9 | <55 | 65.6 | 66.5 | 60.9 | 62.6 | 67.7 |
| 14. Ceisiadau ar gyfer costau mewn apeliadau Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn ystod y cyfnod adrodd | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ymgysylltu** | | | | | | | | |
| 15. Ydy'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y pwyllgor cynllunio? | Ydy | | Nac ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy | Ydy |
| 16. A oes gan ar yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd? | Oes | | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes |
| 17. A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio y gall aelodau o'r cyhoedd gael mynediad atynt ac olrhain eu cynnydd (a gweld eu cynnwys)? | Oes | Yn rhannol | Nac oes | Oes | Oes | Oes | Oes | Oes |
| **Gorfodi** | | | | | | | | |
| 18. Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt (gan benderfynu a oes achos o dorri rheolaethau cynllunio wedi digwydd ac, os felly, a oes camau gorfodi yn gyfleus) o fewn 84 diwrnod | 80+ | 70.1–79.9 | <70 | 65.8 | 79.4 | 85.0 | 80.6 | 76.9 |
| 19. Amser cyfartalog a gymerwyd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol, mewn diwrnodau | | | | | | | 184.6 | 166.7 |

**ADRAN 1 – LLUNIO CYNLLUN**

Dangosydd 01 - A oes cynllun datblygu cyfredol ar waith sydd o fewn cyfnod y cynllun?

Oes (23 o'r 25 o awdurdodau cynllunio lleol)




**Ffigur 5 – Awdurdodau cynllunio lleol sydd â chynllun datblygu mabwysiedig ym mis Mawrth 2019**


Mae Ffigur 5 yn dangos bod gan 23 allan o'r 25 awdurdod cynllunio lleol Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig.  Mae hyn yn rhoi cwmpas cynllun cyfredol i Gymru o 92%.  Mae dau awdurdod cynllunio lleol sydd â Chynllun Datblygu Unedol ar gael.

Cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ei Gynllun Datblygu Lleol i'w archwilio'n gyhoeddus ym mis Tachwedd 2018.  Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Datblygu Lleol Adneuo Cyngor Sir y Fflint yn hydref 2019 a disgwylir ei gyflwyno i'w archwilio'n gyhoeddus yn haf 2020.

## Dangosydd 02 - Gwyriad o ran paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol o'r dyddiadau a nodwyd yn y cytundeb cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd


**67 mis**

Mae'n rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol, ar ddechrau'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol, gyhoeddi cytundeb cyflenwi, sy'n amlinellu sut y bydd yn paratoi'r cynllun, gan gynnwys gosod amserlen sy'n nodi camau allweddol y broses. Mae'r dangosydd hwn yn mesur llithriad o gerrig milltir allweddol a amlinellir yn amserlen wreiddiol y cytundeb cyflenwi. Mae'n berthnasol yn unig i'r awdurdodau cynllunio lleol nad oeddent wedi mabwysiadu eu Cynllun Datblygu Lleol eto ym mis Mawrth 2019.




**Ffigur 6 – Oedi o ran paratoi Cynllun Datblygu Lleol, mewn misoedd**

Mae'r cyfnod yn cael ei fesur gan y gwahaniaeth, mewn misoedd, rhwng y dyddiad y mae'r cytundeb cyflenwi cyntaf yn cynnig y bydd Cynllun Datblygu Lleol yn cyrraedd un o'r pedwar cam allweddol, a'r dyddiad gwirioneddol pan fo'r Cynllun Datblygu Lleol yn cyrraedd y cam perthnasol. Y pedwar cam allweddol yw dechrau'r ymgynghoriad ar y strategaeth ddewisol, dechrau'r ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol adneuo, cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol i'w archwilio, a mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.




**Ffigur 7 – Cymharu'r oedi cyfartalog o ran paratoi Cynllun Datblygu Lleol, mewn misoedd, o un flwyddyn i'r llall**

Yn debyg i Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cymru Gyfan y llynedd, mae Ffigur 7 yn dangos cynnydd blynyddol arall yn yr oedi cyfartalog yn y gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Dim ond dau awdurdod cynllunio lleol sydd heb fabwysiadu eu Cynllun Datblygu Lleol eto, ac mae'r ddau ohonynt wedi'u hoedi'n sylweddol. Yn achos Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae'r cytundeb cyflenwi cychwynnol yn ymwneud â Chynllun Datblygu Lleol cyntaf y cyngor, a gafodd ei dynnu yn ôl ar ôl ei archwilio yn 2012. Gwnaeth y cyngor gyflwyno ei ail ddrafft o'r Cynllun Datblygu Lleol adneuo ar gyfer archwiliad cyhoeddus ym mis Tachwedd 2018.

| Dangosydd 03 - A gyflwynwyd cytundeb cyflenwi yn adolygu’r Cynllun Datblygu Lleol i Lywodraeth Cymru ac a gytunwyd arno gyda hi? | Do (8 o'r 15 o awdurdodau cynllunio lleol) |
|---|---|

Dyma'r cyntaf o ddau ddangosydd a gyflwynwyd yn dilyn datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ym mis Mawrth 2018. Mynegodd yr awdurdodau cynllunio lleol ddymuniad i wneud cynnydd annibynnol ar Gynlluniau Datblygu Lleol yn hytrach na chydweithio ar gynlluniau ar y cyd. Mewn ymateb i gyn-Ysgrifennydd y Cabinet, datganodd ei bod yn disgwyl i'r cynlluniau hyn gael eu hadolygu'n amserol.

Dechreuodd wyth o 15 o awdurdodau cynllunio lleol adolygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol o fewn 12 mis ar ôl sbarduno Rheoliad 41 o Reoliadau'r Cynlluniau Datblygu Lleol, sy'n mynnu adolygiad gorfodol o'r cynllun ar ôl pedair blynedd. Dechreuodd pedwar awdurdod cynllunio lleol arall adolygu rhwng 12 ac 16 mis ar ôl sbarduno Rheoliad 41. Cymerodd pedwar awdurdod cynllunio lleol fwy na 18 mis i wneud hynny, ac mae dau o'r rheiny (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf) yn dal i fod heb ddechrau ar y gwaith adolygu.

Er mwyn i Gynlluniau Datblygu Lleol fod yn ganllaw effeithiol a dibynadwy ar gyfer datblygu, rhaid iddynt fod yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chyd-fynd â pholisïau cenedlaethol. Yn achos Caerffili a Rhondda Cynon Taf, mae'r cynlluniau hyn bellach wedi dyddio. Yn arbennig, nid ydynt yn adlewyrchu dyletswydd statudol y system gynllunio fel y'i cyflwynwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nid ydynt yn cyd-fynd ychwaith â datganiad polisi'r ddyletswydd honno, fel y'i gosodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Gall natur hen ffasiwn y cynllun arwain at benderfyniadau agored i niwed gan yr awdurdodau cynllunio lleol ar adeg apelio.

| Dangosydd 04 - Gwyriad o ran adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol o'r dyddiadau a nodwyd yn y cytundeb cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd | 1 |
|---|---|

Yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Mawrth 2018, pwysleisiodd y dylid adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol heb oedi. O ran yr awdurdodau cynllunio lleol hynny a ddechreuodd adolygu eu Cynlluniau Datblygu Lleol, cyflawnodd pob un ohonynt safon “dda” o fewn tri mis o amserlenni eu cytundeb cyflenwi gwreiddiol ar gyfer adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Yr unig eithriadau yw'r awdurdodau cynllunio lleol hynny sydd wedi methu â dechrau adolygu, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

**Dangosydd 05 - Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi eu llunio yn dilyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol** | **Do (18 o'r 18 o awdurdodau cynllunio lleol)**

Mae Adroddiadau Monitro Blynyddol yn ofynnol yn ôl y ddeddfwriaeth. Maent yn adrodd ar y cynnydd o ran gweithredu'r polisïau a chyflawni amcanion a gweledigaeth pob Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Adroddiadau Monitro Blynyddol yn nodi a yw strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn gweithio yn ôl y bwriad neu beidio. Mae eu cyd-destun a'u dangosyddion yn cael eu cytuno fel rhan o'r broses archwilio gyhoeddus, cyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol. Gall ystyried canfyddiadau Adroddiad Monitro Blynyddol, yn arbennig pan fo tuedd o ran methu â chyflawni targedau, ysgogi adolygiad llawn neu rannol o Gynllun Datblygu Lleol.

Mae angen i bob awdurdod lleol ystyried yn ofalus a yw ei bolisïau yn cael eu cyflawni neu beidio. Pan fo diffygion, dylid cymryd camau adfer er mwyn cywiro unrhyw ddiffygion yn brydlon. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod y data tystiolaeth yn dyddio. Mae gan bob awdurdod cynllunio lleol ddyletswydd statudol i adolygu ei Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig bedair blynedd ar ôl iddo gael ei fabwysiadu (Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Lleol, Rheoliad 41).

Mae dyletswydd ar bob awdurdod cynllunio lleol sydd â Chynllun Datblygu Lleol mabwysiedig i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Weinidogion Cymru, gan adrodd ar weithredu targedau'r Cynllun Datblygu Lleol. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cyflwynodd pob awdurdod cynllunio lleol ei Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, sef 31 Hydref 2018.


**Dangosydd 06 - Cyflenwad presennol yr awdurdod cynllunio lleol o ran tir ar gyfer tai mewn blynyddoedd** | **Cyflawnwyd cyflenwad pum mlynedd gan chwe awdurdod cynllunio lleol**

Mae'r system gynllunio'n gyfrifol am nodi safleoedd addas ar gyfer tai newydd drwy'r broses Cynllun Datblygu Lleol. Disgwylir i bob awdurdod cynllunio lleol ddangos argaeledd tir digonol a chyflawnadwy o fewn yr awdurdod er mwyn adeiladu tai ar gyfer y pum mlynedd nesaf, yn seiliedig ar y gofynion tai a nodwyd yn ei Gynllun Datblygu Lleol. Mae'r ffordd y mae'r gofyniad polisi hwn yn cael ei fonitro'n cael ei adnabod fel y gyd-astudiaeth argaeledd tir ar gyfer tai (JHLAS). Bob blwyddyn mae'r awdurdodau cynllunio lleol yn cynnal yr astudiaethau hyn ac yn cyhoeddi eu canfyddiadau.

Ar 31 Mawrth 2019, roedd gan chwe awdurdod gyflenwad pum mlynedd neu fwy o dir ar gyfer tai (gweler Ffigur 8 isod). Gallai prinder tir cyflawnadwy ar gyfer tai, diffyg cyflenwi gan y diwydiant adeiladu tai, neu ddiffyg amrediad a dewis o safleoedd, olygu nad yw cynllun yr awdurdod yn gallu dangos cyflenwad pum mlynedd.


Pan nad yw awdurdod cynllunio lleol yn gallu dangos cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai, dylai ystyried y rhesymau dros y diffyg a ph'un a ddylid nodi mesurau i fynd i'r afael â'r diffyg hwn fel rhan o'i Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.

Mae'r cyd-destun polisi cenedlaethol yn cael ei amlinellu yn Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 1:Cyd-astudiaethau argaeledd tir ar gyfer tai (TAN1).




**Ffigur 8 – Awdurdodau cynllunio lleol sydd â chyflenwad pum mlynedd neu fwy o dir ar gyfer tai (ar 31 Mawrth 2019)**

Mae Ffigur 8 uchod yn dangos y cyflenwad tir ar gyfer tai ymhob awdurdod cynllunio lleol ar 31 Mawrth 2019. Nid yw awdurdodau cynllunio lleol heb Gynllun Datblygu Lleol mabwysiedig (neu Gynllun Datblygu Unedol mabwysiedig sy'n dal i fod o fewn cyfnod ei gynllun ar ddyddiad sylfaenol y JHLAS) yn gallu cynnal JHLAS ac felly ystyrir bod ganddynt gyflenwad sero mlynedd o dir ar gyfer tai. O ganlyniad, mae tri awdurdod cynllunio lleol yn dangos cyflenwad sero mlynedd o dir ar gyfer tai.




**Ffigur 9 – Nifer yr awdurdodau cynllunio lleol sydd â chyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai**

Mae Ffigur 9 uchod yn dangos nifer yr awdurdodau cynllunio lleol sydd â chyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai, ac mae hyn eto wedi parhau ar yr un lefel ag yn y ddwy flynedd flaenorol.

Mae Ffigur 9 uchod yn dangos nifer yr awdurdodau cynllunio lleol sydd â chyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai, ac mae hyn eto wedi parhau ar yr un lefel ag yn y ddwy flynedd flaenorol.

Mae cyflenwad tir, fel yr adroddwyd yn y JHLASau, wedi dirywio ar gyfer llawer o'r awdurdodau cynllunio lleol, gan gynnwys rhai sydd â Chynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn ddiweddar. Mae rhesymau dros yr oedi o ran safleoedd yn cyflwyno datblygiad yn cynnwys problemau hyfywedd, dyrannu safleoedd ar gyfer tai nad ydynt yn gyflawnadwy yn eu hanfod, neu ond yn debygol o gael eu cyflwyno yn ystod camau diweddarach o gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol, neu gyfraddau cyflenwi sy'n rhy optimistaidd. Mae hyn wedi arwain at gyfraddau cyflenwi sy'n is na'r disgwyl ar safleoedd a neilltuwyd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol ac mae'n amlwg ei fod yn cael effaith niweidiol ar y cyflenwad tir ar gyfer tai.

Er mwyn lleddfu rhywfaint o'r pwysau dybryd ar awdurdod cynllunio lleol wrth ymdrin â cheisiadau am dai ar safleoedd nas dyrannwyd ar gyfer datblygu mewn Cynlluniau Datblygu Lleol, ym mis Mai 2018 gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ddatgymhwyso paragraff 6.2 o TAN 1 yn dilyn ymgynghoriad. Roedd hyn yn cael gwared ar y cyfeiriad i roi pwysoliad "sylweddol" i'r diffyg cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai fel ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer tai. Cafodd paragraff 6.2 o TAN 1 ei ddatgymhwyso a chynhaliwyd adolygiad o weithgareddau cyflenwi tai trwy'r system gynllunio.

Cynhaliwyd dau ymgynghoriad pellach ar gyflenwi tai yn 2019, sef 'galw am dystiolaeth' ac, mewn ymateb, diwygiadau arfaethedig ym Mholisi Cynllunio Cymru. Mae'r ail ymgynghoriad o'r ymgynghoriadau hyn yn cynnig dileu'r polisi cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai a'r gyd-astudiaeth argaeledd tir ar gyfer tai gysylltiedig a'i ddisodli gan y broses o fonitro nifer y tai a gwblhawyd yn erbyn y llwybr cyflenwi tai a nodir yn y Cynlluniau Datblygu Lleol, trwy'r Adroddiadau Monitro Blynyddol. Nod y dull arfaethedig hwn o weithio yw sicrhau bod y gwaith o gyflenwi tai a'r gwaith monitro cysylltiedig, gan gynnwys y gwaith o ymateb i

dangyflenwi, yn rhan hanfodol o'r broses o fonitro ac adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol. Bwriedir cyhoeddi canlyniad yr ail ymgynghoriad hwn yn gynnar yn 2020.


Yn ogystal â hynny, mae fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018 yn mynnu asesu safleoedd yn fwy trylwyr cyn dyrannu yn y Cynlluniau Datblygu Lleol. Dylai hyn negyddu'r angen am gynnal asesiadau hyfywedd manwl yn y cam cais cynllunio pan fo'r cynnig datblygu yn cydymffurfio â gofynion polisi'r Cynllun Datblygu Lleol.

ADRAN 2 – EFFEITHLONRWYDD

Indicator 07 - Percentage of "major" applications determined within time periods required — 67.8%

Mae gan awdurdodau cynllunio lleol gyfnod amser statudol pan ddylent benderfynu ar geisiadau cynllunio. Os nad yw cais yn cael ei benderfynu o fewn y cyfnod amser statudol hwn, mae gan yr ymgeisydd yr hawl i apelio i'r Arolygiaeth Gynllunio ar sail diffyg penderfyniad. Y cyfnod amser yw 16 wythnos ar gyfer cais sy'n destun asesiad o'r effaith amgylcheddol, yn sgil cymhlethdod technegol y wybodaeth ategol. Ar gyfer yr holl geisiadau eraill, wyth wythnos yw'r cyfnod.


Gall awdurdodau cynllunio lleol wneud cais am estyniad gwirfoddol i'r cyfnod amser hwn gyda'r ymgeisydd, ac mae'r dangosydd hwn yn cynnwys achosion pan fo estyniad wedi'i gytuno, ac y bodlonir yr amserlen ddiwygiedig, fel "yn brydlon".




**Ffigur 10 – Cymharu perfformiad awdurdodau cynllunio lleol o ran penderfynu ar geisiadau cynllunio mawr**


Mae Ffigur 10 yn dangos perfformiad unigol pob awdurdod cynllunio lleol yn erbyn y dangosydd hwn. Mae perfformiad unigol yr awdurdodau cynllunio lleol eto wedi bod yn sylweddol well o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae 16 o'r 25 o awdurdodau cynllunio lleol yn perfformio yn y band “da”. Mae wyth o'r 25 awdurdod cynllunio lleol o fewn y band "gwella" sydd, fodd bynnag, yn gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae pedwar awdurdod cynllunio lleol wedi penderfynu ar 100% o'r ceisiadau mawr “yn brydlon”, ac mae hyn oherwydd rheoli gwaith achos mawr ar geisiadau yn effeithiol, gan gynnwys defnyddio estyniadau y cytunir arnynt i amseroedd penderfynu.




**Ffigur 11 – Cymharu'r perfformiad cyfartalog ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio mawr dros chwe blynedd.**


Mae Ffigur 11 yn dangos perfformiad awdurdodau cynllunio lleol yn erbyn y dangosydd hwn rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2019. Mae'r siart yn dangos cynnydd yn y perfformiad yn erbyn blynyddoedd blaenorol ac mae llawer o'r awdurdodau cynllunio lleol yn y band “gwella” wedi cyflawni safon perfformiad “da” yn 2018-19.




**Ffigur 12 – Cymharu nifer y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt yn brydlon ac o fewn yr estyniadau cytunedig**


Yn adroddiad eleni, caiff gwaith achos mawr ar geisiadau ei ledaenu'n fwy hafal ar draws awdurdodau cynllunio lleol. Mae Cyngor Caerdydd, Cyngor Sir a Dinas Abertawe a Chyngor Sir Powys wedi cael llwyth gwaith sylweddol o ran ceisiadau mawr, er y bu i Gyngor Sir y Fflint ymdrin â llwyth gwaith mwy na'r cyffredin o ran ceisiadau mawr.

Mae Cyngor Sir a Dinas Abertawe yn enwedig yn dangos y gellir cyflawni safon perfformiad uchel yn erbyn y dangosydd hwn er gwaethaf llwyth gwaith sylweddol o ran ceisiadau mawr; yn ogystal â phenderfynu ar 88.4% o bob cais mawr “yn brydlon”, penderfynodd y Cyngor ar y nifer uchaf o geisiadau o fewn cyfnod penderfynu statudol o wyth neu 16 o wythnosau. Mae Cyngor Sir a Dinas Abertawe yn nodi bod fforymau datblygwyr a'r defnydd o dîm datblygu wedi cyfrannu at ei berfformiad llwyddiannus yn y maes hwn.





**Ffigur 13 – Cymharu canran y ceisiadau cynllunio mawr y penderfynwyd arnynt "yn brydlon"** o un flwyddyn i’r llall

Mae Ffigur 13 yn dangos perfformiad Cymru gyfan yn erbyn y dangosydd hwn, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer “gwella”, oren ar gyfer “gweddol” a gwyrdd ar gyfer “da” yn y drefn honno. Mae'r perfformiad yn parhau i wella o un flwyddyn i’r llall. Mae hon yn duedd galonogol ac mae'n dangos yr ymdrechion a wnaed gan awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni safonau gwasanaeth derbyniol ar gyfer ceisiadau mawr, sydd fel arfer yn denu ffioedd cynllunio sylweddol.




**Ffigur 14 – Yr holl geisiadau mawr y penderfynwyd arnynt, yn ôl cyfnod amser ar gyfer penderfynu**

Mae Ffigur 14 uchod yn dangos bod nifer y ceisiadau mawr wedi gostwng am y bedwaredd flwyddyn yn olynol o 756 o geisiadau yn 2015/16 i 481 yn 2018/19. Yn ystod y cyfnod hwn, mae canran y ceisiadau y penderfynwyd arnynt “yn brydlon” wedi cynyddu'n sylweddol, yn sgil y defnydd o estyniadau cytunedig i gyfnodau amser ar gyfer penderfynu. Mae cyfran y ceisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn cyfnodau amser statudol wedi gostwng o 22.8% yn 2015-16 i'r ffigur presennol sef 12.9%. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu un traean o nifer y ceisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn cyfnodau amser statudol, o'u cymharu â chyfnod adrodd 2015-16.





**Ffigur 15 – Cyfran y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt "yn brydlon" sy'n destun estyniad amser cytunedig**

Mae Ffigur 15 uchod yn dangos nifer y ceisiadau y penderfynwyd arnynt "yn brydlon" o fewn y cyfnodau amser statudol o 16 wythnos ar gyfer ceisiadau sy'n destun asesiad o’r effaith amgylcheddol, neu wyth wythnos ar gyfer ceisiadau eraill, wedi'u cymharu â'r ceisiadau hynny y penderfynwyd arnynt y tu allan i'r amseroedd hyn ond o fewn estyniad amser cytunedig.

Mae cyfran y ceisiadau y penderfynir arnynt yn unol ag estyniadau amser cytunedig yn parhau i dyfu fel cyfran gyffredinol o geisiadau y penderfynir arnynt "yn brydlon". Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y byddai'n well gan ymgeiswyr gytuno ar estyniadau amser ar gyfer ceisiadau cynllunio yn hytrach nag wynebu'r risg o'u gwrthod, er ei bod yn bosibl o hyd i'w hapelio ar sail diffyg penderfyniad.

## Dangosydd 08 - Yr amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau "mawr", mewn diwrnodau

**231.8 o ddiwrnodau**





**Ffigur 16 – Cymharu'r amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau cynllunio mawr**

Mae Ffigur 16 uchod yn cymharu perfformiad ymhlith awdurdodau cynllunio lleol yn erbyn y dangosydd hwn. Mae'r siart yn dangos amrywiaeth sylweddol o ran yr amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau o'r fath. Fodd bynnag, wrth ystyried perfformiad awdurdodau cynllunio lleol yn erbyn y dangosydd hwn, dylid deall bod ceisiadau mawr yn amrywio'n sylweddol o ran maint a chymhlethdod.

Mae'r meini prawf ar gyfer datblygiad mawr yn cael eu nodi'n fanwl yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Er enghraifft, mae datblygiad o 10 annedd neu fwy yn cyfrif fel datblygiad mawr, ac mae gwahaniaeth sylweddol rhwng dyfnder a chymhlethdod y materion sy'n cael eu hystyried gan yr awdurdod cynllunio lleol wrth benderfynu, er enghraifft, ar gais am 10 annedd a chais am 1,000 o anheddau. Mae'r un peth yn wir yn arbennig ar gyfer rhai datblygiadau diwydiannol neu ddatblygiadau tynnu mwynau, sy'n gallu codi materion amgylcheddol ac amwynder cymhleth. Dylid cadw mewn cof yr amrywiaeth hon o ran cymhlethdod wrth ystyried perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn.

Mae awdurdodau sy'n cyflawni amseroedd aros byrrach ar gyfer penderfynu ar geisiadau mawr yn adrodd bod dull gweithredu tîm datblygu rhagweithiol yn effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau o fewn amserlenni byrrach. Gall y broses ymgynghori cyn ymgeisio hefyd fod yn fuddiol, er ei bod yn fwy dibynnol ar gamau gweithredu'r ymgeisydd yn gwneud newidiadau i gynlluniau yn sgil cyngor, yn hytrach na'r gwasanaeth mae'r awdurdod yn ei ddarparu.





**Ffigur 17 – Cymharu'r amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau cynllunio mawr dros bum mlynedd**

Mae Ffigur 17 yn dangos perfformiad yr awdurdodau cynllunio lleol yn erbyn y dangosydd hwn dros gyfnod o bum mlynedd rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2019. Nodir bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, un o'r awdurdodau cynllunio lleol sydd â’r timau lleiaf o swyddogion yng Nghymru, yn gallu cyflawni perfformiad uchel yn gyson yn erbyn y dangosydd hwn. Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol y cyngor yn dangos yr ymdrinnir â cheisiadau mawr yn bersonol gan unig brif swyddog cynllunio'r cyngor. Rheswm arall dros lwyddiant y cyngor yn y maes hwn yw trafodaethau cyn-ymgeisio cynhwysfawr, ystyrlon ac effeithiol, gan gynnwys ar Gytundebau Adran 106, yn ogystal â'r gallu i ddatblygu cydberthnasau gweithio effeithiol gydag ymgeiswyr ac asiantau.

Ar ben arall y sbectrwm, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn aml yn ystyried ceisiadau mawr o natur ddiwydiannol sylweddol, sy'n peri problemau mawr o ran yr effaith ar yr amgylchedd. Mae natur dechnegol a sensitif y ceisiadau hyn yn golygu bod rhaid eu hystyried yn ofalus. Mae'r cyngor wedi ceisio ymgysylltu â datblygwyr i greu sefyllfa lle gellir gwneud penderfyniad ar yr achosion cymhleth hyn, ac mewn rhai achosion, ni all datblygwyr ddarparu gwybodaeth angenrheidiol bellach mewn cyfnod amser rhesymol ac maent yn anfodlon tynnu'r ceisiadau hyn yn ôl pan ellir casglu gwybodaeth.

Derbynnir bod y dull hwn o alluogi ceisiadau yn rhan o'r gwaith o ddatblygu perthynas weithio adeiladol, sy'n ddefnyddiol yn ôl yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n perfformio orau.





**Ffigur 18 – Cymharu'r amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau cynllunio mawr, mewn diwrnodau, o un flwyddyn i'r llall**

Mae perfformiad Cymru gyfan yn erbyn y dangosydd hwn eto wedi gwella fymryn dros y 12 mis diwethaf. Mae nifer yr awdurdodau cynllunio lleol sydd ag amser cyfartalog sy'n uwch na 200 o ddiwrnodau wedi lleihau eto, ac mae allanolyn sylweddol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) wedi nodi effaith ar safon y perfformiad Cymru gyfan.

Mae'r amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau mawr yng Nghymru'n parhau i nodi nad oedd modd penderfynu ar geisiadau mawr o fewn wyth wythnos mewn llawer o achosion, hyd yn oed gyda'r awdurdodau sy'n perfformio orau yn cymryd mwy o amser ar gyfartaledd na'r cyfnod hwn i benderfynu. Nid yw effaith gweithdrefnau cyn-ymgeisio wedi arwain at newid sylweddol mewn perfformiad yn y maes hwn.


Indicator 09 - Percentage of all applications determined within time periods required

88.1%




**Ffigur 19 – Cymharu perfformiad awdurdodau cynllunio lleol wrth benderfynu ar yr holl geisiadau cynllunio**


Mae Ffigur 19 yn dangos perfformiad awdurdodau cynllunio lleol yn erbyn y dangosydd hwn yn ystod cyfnod adrodd 2018-19. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn parhau i ddangos perfformiad uchel yn gyson yn erbyn y dangosydd hwn. Mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn arbennig hefyd wedi cyflawni safonau perfformiad uchel iawn o ran penderfynu ar geisiadau "yn brydlon", gan ddangos bod awdurdod cynllunio lleol â llwyth gwaith sylweddol o ran ceisiadau hefyd yn gallu cyflawni'r un safonau â'r awdurdodau cynllunio lleol â llai o achosion. Yn debyg i hynny, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cyflawni perfformiad uchel yn erbyn y dangosydd hwn, er gwaethaf llwyth gwaith uchel fesul swyddog a meddu ar dîm gweddol fach.




**Ffigur 20 – Cymharu perfformiad awdurdodau cynllunio lleol wrth benderfynu ar yr holl geisiadau cynllunio dros chwe blynedd**

Mae Ffigur 20 yn dangos perfformiad yr awdurdodau cynllunio lleol yn erbyn y dangosydd hwn dros gyfnod o chwe blynedd rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2019. Mae'r pedwar awdurdod cynllunio lleol a enwyd uchod yn dangos perfformiad uchel yn gyson yn erbyn y dangosydd hwn dros y cyfnod dadansoddi o bum mlynedd.


Y rheswm dros berfformiad llwyddiannus Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw tîm swyddogion llawn cymhelliant a grym, yn ogystal ag adolygiadau rheolaidd o'i brosesau er mwyn sicrhau effeithlonrwydd y gwasanaeth.




**Ffigur 21 – Cymharu canran yr holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt “yn brydlon” o flwyddyn i'r llall**

Mae Ffigur 21 yn dangos perfformiad o un flwyddyn i'r llall ar sail Cymru gyfan, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer "gwella", oren ar gyfer "gweddol" a gwyrdd ar gyfer "da" .

Mae perfformiad awdurdodau cynllunio lleol unigol yn erbyn y safon hon yn parhau i wella. Cyflawnodd pob un o'r awdurdodau cynllunio lleol safon perfformiad "da" neu "teg" yn erbyn yn erbyn y dangosydd hwn, sef gwelliant arall o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.




**Ffigur 22 – Y defnydd o estyniadau cytunedig wrth benderfynu ar yr holl geisiadau cynllunio**


Mae Ffigur 22 yn dangos nifer a chyfran yr holl geisiadau y penderfynwyd arnynt yn unol ag estyniad amser cytunedig. Er y penderfynwyd ar fwy o geisiadau "yn brydlon" nag erioed, mae Ffigur 21 yn dangos bod nifer wirioneddol y ceisiadau y penderfynwyd arnynt o fewn cyfnodau amser statudol wedi gostwng yn gyson ers 2014-15. Mae'r ganran y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser statudol hynny hefyd wedi gostwng, o bron 69.6% yn 2014-15 i 56.8% yn 2018-19.

Mae hyn yn dangos bod yr awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu herio fwyfwy i benderfynu ar geisiadau o fewn y cyfnodau amser a nodir mewn deddfwriaeth cynllunio. Pan fydd yr awdurdodau cynllunio lleol yn gwneud sylw ar y mater hwn, byddant yn cyfeirio at "weithio gydag" ymgeiswyr er mwyn mynd i'r afael â diffygion o ran ceisiadau yn hytrach na gwrthod. Dyluniwyd y newidiadau mewn deddfwriaeth a gyflwynwyd yn dilyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 er mwyn eithrio'r posibilrwydd o newidiadau sylweddol mewn ceisiadau unwaith y cânt eu cyflwyno.

Ni ddisgwylir gweld nifer y ceisiadau y penderfynir arnynt o fewn cyfnodau amser statudol, yn dilyn y newidiadau hyn, yn lleihau yn hytrach nag yn cynyddu. Mae nifer a chyfran yr holl geisiadau sy'n destun estyniad amser cytunedig yn dangos y gallai'r awdurdodau cynllunio lleol fod yn manteisio'n fwy ar egwyddor estyniadau cytunedig ar gyfer cyfnodau penderfynu, ac o ganlyniad, yn rhoi blaenoriaeth is i gyflawni amseroedd penderfynu statudol. Mae angen ymchwilio ymhellach i'r maes hwn.

Dangosydd 10 - Yr amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau, mewn diwrnodau


80.7 o ddiwrnodau




**Ffigur 23 – Cymharu'r amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau cynllunio**

Mae Ffigur 23 uchod yn cymharu cyflymderau penderfynu cyfartalog ar gyfer ceisiadau o bob math, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer "gwella", oren ar gyfer "gweddol" a gwyrdd ar gyfer "da". Ar y cyfan, mae perfformiad awdurdodau cynllunio lleol yn erbyn y dangosydd hwn o fewn disgwyliadau rhesymol, ac eithrio un allanolyn eithafol.


Cyngor Sir Powys yw'r awdurdod cynllunio lleol sydd â'r amser cyfartalog hiraf o ran penderfynu ar geisiadau, sef 161.5 o ddiwrnodau. Mae hwn yn ychydig o welliant ar ei berfformiad o 181.3 o ddiwrnodau yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol, ond mae'r cyngor yn dal i gymryd amser sylweddol fwy na'r holl awdurdodau cynllunio lleol eraill i benderfynu ar geisiadau cynllunio, a hynny dros deirgwaith yn hwy na Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yr awdurdod cynllunio lleol sy'n perfformio orau.




**Ffigur 24 – Cymharu'r amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar bob cais cynllunio dros bum mlynedd**

Mae Ffigur 24 yn dangos perfformiad yr awdurdodau cynllunio lleol yn erbyn y dangosydd hwn dros gyfnod o bum mlynedd rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2019. Yn debyg i'r cyfnod adrodd ar berfformiad o 12 mis, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Dinas a Sir Abertawe sy'n arwain y ffordd o ran perfformiad. Mae hyn hefyd yn dangos bod tanberfformiad Cyngor Sir Powys o ran amser cyfartalog i benderfynu ar geisiadau yn gyson trwy gydol y cyfnod adrodd.

Mae'r Cyngor yn nodi'r cymhlethdod o ran ymdrin â nifer fawr o geisiadau am unedau dofednod dwys, yr angen i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried problemau cymhleth a ddaw yn eu sgil a natur ddwys o ran adnoddau'r gwaith hwn, yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Nodir hwn fel maes hanfodol i'w wella. Byddwn yn monitro'r perfformiad yn y maes hwn yn agos, wrth ddisgwyl gwelliannau.





**Ffigur 25 – Cymharu'r amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau cynllunio, mewn diwrnodau, o un flwyddyn i'r llall**

Mae Ffigur 25 yn dangos perfformiad o un flwyddyn i'r llall ar sail Cymru gyfan. Caiff perfformiad ei ddosbarthu yn ôl lliw, er bod perfformiad blynyddol yn perthyn i'r band oren (neu "teg") ar gyfer pob un o'r pum mlynedd adrodd. Mae perfformiad yn y maes hwn yn gyson wrth ei ystyried o safbwynt Cymru gyfan, gyda mân welliant mewn perfformiad yn ystod y cyfnod adrodd diweddaraf.

Er bod y duedd gyffredinol o ran perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn ledled Cymru yn sefydlog, nid yw hyn yn adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd i symleiddio proses y ceisiadau cynllunio. Gwneir mwy o ddefnydd o estyniadau amser cytunedig ar gyfer pob cais cynllunio. Yn ogystal â hynny, cyflwynwyd deddfwriaeth sy'n galluogi ymgeiswyr i hawlio ad-daliadau ar gyfer ffioedd cynllunio os na phenderfynir ar geisiadau o fewn cyfnod amser rhesymol.

Diben y fframwaith deddfwriaethol yw sicrhau y gall ymgeiswyr geisio unioni camwedd pan fydd awdurdodau cynllunio lleol yn cymryd gormod o amser i benderfynu ar geisiadau, ond ni ddefnyddir y pwerau hyn yn eang ac ni fu cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau sy'n destun apêl ar sail diffyg penderfyniad. Mae hyn yn awgrymu bod ymgeiswyr yn hapusach i adael i geisiadau gymryd mwy o amser yn hytrach na manteisio ar eu hawl i geisio ad-daliad neu i apelio.

**Dangosydd 11 - Canran y ceisiadau caniatâd adeilad rhestredig y penderfynwyd arnynt o fewn y cyfnodau amser gofynnol** — **74.7%**




**Ffigur 26 – Cymharu perfformiad awdurdodau cynllunio lleol o ran penderfynu ar geisiadau caniatâd adeilad rhestredig**

* Mae gan awdurdodau cynllunio lleol awdurdod dirprwyedig i benderfynu ar geisiadau caniatâd adeilad rhestredig


Ystyrir i geisiadau caniatâd adeilad rhestredig gael eu pennu ar un o ddau bwynt:

- Gall yr awdurdodau cynllunio lleol hynny sydd ag awdurdod dirprwyedig gan Cadw (sydd wedi eu nodi gyda seren yn Ffigur 25 uchod) benderfynu ar geisiadau caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer adeiladau rhestredig Gradd II eu hunain, felly mae'r dyddiad penderfynu'n syml ar gyfer yr awdurdodau cynllunio lleol hyn.
- Rhaid i'r awdurdodau cynllunio lleol hynny heb awdurdod dirprwyedig gan Cadw gyfeirio ceisiadau at Cadw, ac, ar y pwynt hwn, bydd Cadw yn penderfynu a ddylid argymell bod y cais hwn yn cael ei alw i mewn gan Weinidogion Cymru. Ar gyfer yr awdurdodau cynllunio lleol hyn, ystyrir mai'r dyddiad "penderfynu" yw'r dyddiad pan fo'r cais yn cael ei gyfeirio at Cadw, oherwydd bod unrhyw oedi yng ngwaith prosesu ceisiadau Cadw y tu hwnt i ddylanwad yr awdurdod cynllunio lleol.

Cytunwyd ar y targedau perfformiad ar gyfer y dangosydd hwn â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru ym mis Gorffennaf 2018 ac adroddir ar hyn am y tro cyntaf yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn.

Mae Ffigur 26 yn dangos bod awdurdodau cynllunio lleol sydd ag awdurdod dirprwyedig i benderfynu ar ganiatâd adeilad rhestredig, yn gyffredinol, yn fwy amlwg ar ben uchaf y sbectrwm perfformiad. Ar y cyfan, fodd bynnag, nid oes unrhyw gydberthynas uniongyrchol


rhwng prydlondeb o ran penderfynu ar geisiadau caniatâd adeilad rhestredig ac awdurdod dirprwyedig gan Cadw i benderfynu ar geisiadau caniatâd adeilad rhestredig.




**Ffigur 27 – Cymharu perfformiad awdurdodau cynllunio lleol wrth benderfynu ar geisiadau caniatâd adeilad rhestredig dros chwe blynedd**

* Mae gan awdurdodau cynllunio lleol awdurdod dirprwyedig i benderfynu ar geisiadau caniatâd adeilad rhestredig

Mae Ffigur 27 yn dangos perfformiad awdurdodau cynllunio lleol yn erbyn y dangosydd hwn rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2019. Eto, mae hyn yn dangos y cyflawnwyd gwelliannau mewn perfformiad gan yr awdurdodau cynllunio lleol yn ystod y cyfnod adrodd, o'u cymharu â'r perfformiad cyffredinol yn ystod bodolaeth y Fframwaith Perfformiad Cynllunio. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir Conwy, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Caerdydd, Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Sir Powys wedi dangos perfformiad “da” yn erbyn y dangosydd hwn, ond fe'u dangosir yn y band “wedi gwella” dros gwmpas llawn y siart uchod. Mae'r gwelliant yn y gwasanaeth i'w ganmol.




**Ffigur 28 – Cymharu canran yr holl geisiadau caniatâd adeilad rhestredig y penderfynwyd arnynt "yn brydlon" o un flwyddyn i'r llall**


Mae'r perfformiad ar geisiadau caniatâd adeilad rhestredig ledled Cymru wedi gwella'n raddol ers 2014. Mae hyn yn nodedig o ystyried bod sawl awdurdod cynllunio lleol yn dweud bod ganddynt lai o fynediad i arbenigedd arbenigol.

## ADRAN 3 – ANSAWDD

**Dangosydd 12 - Canran y penderfyniadau a wnaed gan aelodau yn erbyn cyngor swyddog** | **9.2%**

Dylai awdurdodau cynllunio lleol benderfynu ar geisiadau yn unol â'r cynllun datblygu perthnasol, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn eu harwain i benderfynu fel arall. O ganlyniad, dylai fod yn ddigwyddiad cymharol anaml i benderfynu ar geisiadau yn groes i'r polisïau hynny. Pan benderfynir ar geisiadau yn groes i bolisïau cynllunio, dylai rhesymau cynllunio clir gael eu nodi yn yr hysbysiad penderfynu, gan gyfiawnhau peidio â dilyn y cynllun. Pan fo adroddiad swyddog yn seiliedig ar bolisïau clir yn y Cynllun Datblygu Lleol, dylai penderfyniadau sy'n groes i'r cyngor hwnnw fod yn brin.

Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol weithredu cynllun dirprwyo effeithiol fel y gall pwyllgorau cynllunio ganolbwyntio ar y ceisiadau mwy sensitif, sy'n strategol bwysig. Gall ceisiadau o'r fath fod yn dechnegol gymhleth ac yn ddadleuol, gan gynnwys nifer o faterion a phwysau sy'n gwrthdaro. Caiff ei dderbyn, wrth i gynlluniau dirprwyo gael eu rhoi ar waith, fod nifer y penderfyniadau a wneir gan aelodau sy'n groes i gyngor swyddog yn debygol o gynyddu. Rhaid i unrhyw benderfyniad o'r fath fod yn seiliedig ar resymau cynllunio cadarn.





**Ffigur 29 – Canran y ceisiadau cynllunio y penderfynir arnynt yn groes i gyngor swyddog**

Mae Ffigur 29 uchod yn dangos canran y ceisiadau y penderfynwyd arnynt yn groes i argymhelliad swyddog gan bwyllgorau cynllunio mewn awdurdodau cynllunio lleol, fel canran o'r holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt gan y pwyllgor cynllunio priodol,


gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer “gwella”, oren ar gyfer “gweddol” a gwyrdd ar gyfer “da”.

Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, mae perfformiad un awdurdod cynllunio lleol mor wael, mae'n camystumio cyfartaledd Cymru gyfan ar gyfer y dangosydd perfformiad hwn yn sylweddol. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn penderfynu ar gyfran uchel iawn o geisiadau yn groes i gyngor swyddogion yn gyson.  Mae naill ai tensiynau yn y berthynas rhwng aelodau a swyddogion, neu mae aelodau'n dangos diffyg ystyriaeth o’r system sy'n dilyn cynllun, neu'r ddau.  Mae hyn yn wrthgynhyrchiol ac mae'n creu ansicrwydd yn y system gynllunio y mae cymunedau a datblygwyr yn dibynnu arni i greu hyder yn ffurf a lleoliad datblygiadau yn y dyfodol ac yn arwain at lefelau isel o hyder ymhlith y cyhoedd yn y gwasanaeth cynllunio ar lefel leol.





**Ffigur 30 – Canran y ceisiadau cynllunio y penderfynir arnynt yn groes i gyngor swyddog dros bum mlynedd**

Gall cyfran y ceisiadau y penderfynwyd arnynt gan bwyllgor arwain at amrywiad mewn perfformiad ar y dangosydd hwn, er nad oes cysylltiad rhwng nifer y ceisiadau yr aethpwyd â nhw i'r pwyllgor a chanran y penderfyniadau a newidiwyd. Er enghraifft, penderfynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar y nifer uchaf o geisiadau ar lefel pwyllgor, sef 146 – 17% o'r holl geisiadau y penderfynwyd arnynt gan y cyngor – ac eto cyflawnodd fand perfformiad “teg”.





**Ffigur 31 – Cymharu canran y penderfyniadau gan aelodau a wnaed yn groes i gyngor swyddog o un flwyddyn i'r llall**

Mae Ffigur 31 yn dangos perfformiad Cymru gyfan o un flwyddyn i'r llall yn erbyn y dangosydd hwn, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer "gwella", oren ar gyfer "gweddol" a gwyrdd ar gyfer "da". Fel arfer, bydd pwyllgorau cynllunio yn ystyried ceisiadau mwy, sy'n fwy cymhleth neu sensitif, gyda cheisiadau llai yn cael eu pennu o dan bwerau dirprwyedig. Mae hyn yn cyfeirio amser ac ymdrech y pwyllgor cynllunio at achosion sydd angen y mwyaf o sylw. Os bydd pwyllgorau yn penderfynu ar lai o geisiadau sy'n fwy dadleuol, mae'n dilyn y bydd y ceisiadau hynny yn fwy tebygol o gael eu pennu yn groes i argymhelliad swyddog.




**Ffigur 32 – Nifer y penderfyniadau a gafodd eu gwneud mewn pwyllgor cynllunio**

Mae Ffigur 32 yn dangos bod nifer y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan bwyllgorau cynllunio wedi parhau'n gyson ar gyfer y tair blynedd diwethaf. Mae un neu ddau awdurdod cynllunio lleol sy'n penderfynu ar gyfran uchel o geisiadau mewn pwyllgor, er bod yr awdurdodau hyn (megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) eisoes wedi nodi hwn fel maes i'w wella.





**Ffigur 33 – Nifer y ceisiadau cynllunio y penderfynir arnynt yn groes i gyngor swyddog o'u cymharu â chyfanswm y penderfyniadau gan bwyllgor**

Mae Ffigur 33 uchod yn cymharu nifer y penderfyniadau gwrthdroi â chyfanswm cyffredinol y penderfyniadau gan bwyllgor. Mae'r awdurdod cynllunio lleol â'r nifer uchaf o wrthdroadau hefyd yn penderfynu ar nifer cymharol isel o benderfyniadau mewn pwyllgor, ac nid yw'r awdurdodau cynllunio lleol hynny gyda chyfran uwch o benderfyniadau a wnaed gan bwyllgor, megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, yn dangos cyfran yr un mor uchel o wrthdroadau.

Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, ni ellir gwneud cysylltiad uniongyrchol rhwng nifer y penderfyniadau a wnaed gan bwyllgor (neu a ddirprwywyd i bwyllgor) a thebygolrwydd y penderfyniadau hynny'n cael eu gwrthdroi. Yn hytrach, yn syml mae rhai awdurdodau cynllunio lleol yn fwy tueddol o wrthod cyngor eu swyddogion. Mae tueddfryd pwyllgorau i benderfynu yn groes i gyngor swyddog yn dangos symudiad i ffwrdd o'r polisïau a amlinellir mewn cynllun datblygu mabwysiedig gan yr aelodau priodol, ac mae'n tanseilio uniondeb system sy'n cael ei harwain gan gynllun.

Fodd bynnag, wrth i gynlluniau dirprwyedig newid, bydd llai o geisiadau yn mynd at bwyllgorau. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y bydd angen i'r targedau perfformiad ar gyfer y dangosydd hwn newid.

Dangosydd 13 - Canran yr apeliadau a gafodd eu gwrthod | 67.5%




**Ffigur 34 – Canran yr apeliadau cynllunio sy'n cael eu gwrthod**

Mae'r siart yn Ffigur 34 yn dangos perfformiad cymharol pob awdurdod cynllunio lleol mewn apêl, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer “gwella”, oren ar gyfer “gweddol” a gwyrdd ar gyfer “da”. Mae'r cyfartaledd ledled Cymru ar gyfer y cyfnod adrodd wedi dychwelyd i fand perfformiad “da”, gyda ffigur o 67.5%. Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, derbynnir y gallai sampl fach gamystumio'r perfformiad a nodir gan rai o'r awdurdodau cynllunio lleol llai, mewn unrhyw gyfnod adrodd unigol.






**Fig 35 – Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd dros bedair blynedd**

Mae'r siart yn Ffigur 35 yn dangos perfformiad penderfyniadau cynllunio ar adeg apêl gan yr awdurdodau cynllunio lleol rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2019. Mae hyn yn galluogi'r awdurdodau cynllunio lleol i ddadansoddi perfformiad yn fwy cadarn gyda llwythi gwaith llai o ran ceisiadau. Er enghraifft, gellir beirniadu perfformiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar yr adeg apelio bellach dros 16 o apeliadau, yn hytrach na'r tair apêl y penderfynwyd arnynt yng nghyfnod adrodd 2018-19. Yn y bôn, mae'r awdurdodau cynllunio lleol hynny sy'n perfformio'n llwyddiannus yn erbyn y dangosydd hwn wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol cyfoes ac maent yn penderfynu ar geisiadau yn unol â'r polisïau hynny. Naill ai nid oes gan yr awdurdodau cynllunio lleol hynny sy'n dangos y posibilrwydd o wella Gynllun Datblygu Lleol cyfoes, neu nid ydynt yn penderfynu ar geisiadau yn unol â'r polisïau perthnasol, neu'r ddau.





**Ffigur 36 – Cymharu canran yr apeliadau cynllunio a gafodd eu gwrthod o un flwyddyn i'r llall**

Mae Ffigur 36 yn dangos perfformiad Cymru gyfan ar gyfer y dangosydd hwn, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer “gwella”, oren ar gyfer “gweddol” a gwyrdd ar gyfer “da”.  Mae'n dangos y cafodd cyfanswm o 360 o 532 o apeliadau (67.5%) eu gwrthod yn 2018-19, sy'n dangos parhad o ran y gwelliant graddol mewn perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn a ddangoswyd dros y ddwy flynedd diwethaf.  Rheswm posibl dros hyn yw nifer gynyddol y Cynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd.

**Dangosydd 14 - Ceisiadau ar gyfer costau mewn apeliadau Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn ystod y cyfnod adrodd** | 0 (15 o'r 25 o awdurdodau cynllunio lleol)


Yn ystod apêl, mae'r apelydd a'r awdurdod perthnasol yn cael y cyfle i geisio adfer y costau ar gyfer y broses apelio os ydynt yn credu bod y parti arall wedi ymddwyn yn afresymol. Mae'r costau'n cwmpasu'r gwaith a'r ymdrech sy'n ofynnol ar gyfer ystyried yr apêl – gall hyn gynnwys yr amser a'r costau sy'n ofynnol er mwyn i swyddogion neu asiantau roi tystiolaeth.




**Ffigur 37 – Nifer yr achosion lle y bo costau wedi cael eu dyfarnu yn erbyn yr awdurdod cynllunio lleol mewn apêl**

Mae Ffigur 37 uchod yn dangos bod costau wedi cael eu dyfarnu yn erbyn awdurdodau cynllunio lleol mewn 10 achos.  Roedd dau awdurdod yn destun dyfarnu costau mewn dau neu fwy o achosion, sy'n golygu bod yr awdurdodau hynny yn perthyn i'r band “gwella”.  Yn achos Cyngor Caerdydd, dyfarnwyd y costau yn erbyn yr awdurdod cynllunio lleol bedair gwaith yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae hon yn nifer anarferol o uchel o ddyfarniadau costau ac nid yw o'r rheidrwydd yn adlewyrchu maint llwyth gwaith yr awdurdod cynllunio lleol; er enghraifft, bu 57 o apeliadau yn erbyn Cyngor Caerdydd yn ystod y cyfnod adrodd o'u cymharu â Chyngor Dinas a Sir Abertawe, lle roedd 95 o benderfyniadau'r cyngor yn destun apêl yn ystod yr un cyfnod adrodd, ac ni ddyfarnwyd unrhyw gostau. Yn ôl Cyngor Caerdydd, y rheswm dros y nifer uchel hon o achosion ynghylch costau yw'r her o fynd i'r afael â phwysau am dai amlddeiliadaeth yn y ddinas.




**Ffigur 38 – Cymharu nifer yr achosion lle y cafodd costau eu dyfarnu yn erbyn yr awdurdod cynllunio lleol mewn apêl o un flwyddyn i'r llall**

Mae dyfarnu costau yn erbyn awdurdod cynllunio lleol yn ddyfarniad gan yr arolygydd cynllunio bod yr awdurdod cynllunio lleol nid yn unig wedi gwrthod caniatâd heb seiliau cynllunio cadarn, ond ei fod hefyd wedi bod yn afresymol drwy wneud hynny. Mae awdurdodau cynllunio lleol wedi dangos gwelliant mewn perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn lle mae pwyllgorau wedi adolygu penderfyniadau ar apeliadau a'r canlyniadau cysylltiedig fel pwyntiau i'w dysgu.

**ADRAN 4 – YMGYSYLLTU**


Dangosydd 15 - Ydy’r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y pwyllgor cynllunio?

Ydy

(24 o'r 25 o awdurdodau cynllunio lleol)

Nododd ymchwil Llywodraeth Cymru yn 2012, “Agweddau'r cyhoedd tuag at y system gynllunio”, er bod hyder yn y system gynllunio ar y cyfan, teimlai rhai o aelodau'r cyhoedd nad oeddent yn gallu cyfranogi'n effeithiol yn y broses penderfynu.  Nododd yr adroddiad hefyd yr ystyrir bod diffyg dylanwad gan ddinasyddion lleol ar gynllunio.

Cyflwynwyd cyfres o newidiadau yn y system gynllunio yng Nghymru ers y cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwil, gan gynnwys yr hawl statudol i gynnal gwaith ymgysylltu cymunedol cyn-ymgeisio ar gynigion datblygu mawr.  Mae'r gallu i siarad mewn cyfarfodydd pwyllgor i benderfynu ar geisiadau cynllunio hefyd yn dra effeithiol o ran cynnwys dinasyddion yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.





**Ffigur 39 – Nifer yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y pwyllgor cynllunio**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r unig awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru o hyd nad yw'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd annerch y pwyllgor cynllunio.  Yn ôl y cyngor, nid yw mewn sefyllfa i newid ei reolau sefydlog ar gyfer gweithdrefnau'r pwyllgor ar hyn o bryd.

**Dangosydd 16 - A oes gan ar yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd?**

**Oes**

**(22 o'r 25 o awdurdodau cynllunio lleol)**




**Ffigur 40 – Cymharu nifer yr awdurdodau sy'n darparu gwasanaeth "swyddog ar ddyletswydd" o un flwyddyn i'r llall**


Mae Ffigur 40 yn dangos bod tri awdurdod cynllunio lleol nad ydynt yn darparu gwasanaeth "swyddog ar ddyletswydd" (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Gwynedd). Mae hyn yr un peth â'r ddau gyfnod adrodd blaenorol. Methodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Sir Ceredigion i greu Adroddiadau Perfformiad Blynyddol a chymerir yn ganiataol nad oes newid yn eu sefyllfa ers y cyfnod adrodd blaenorol.

Mae Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru yn cynnal arolwg cwsmeriaid i nodi meysydd poblogaidd o ran gwasanaeth cwsmeriaid a chyfleoedd ar gyfer gwella. Mae "mynediad at swyddog cynllunio" yn cael ei ddyfynnu'n aml fel un o'r agweddau sy'n cael ei hoffi fwyaf o ran y gwasanaeth a gynigir gan awdurdodau cynllunio lleol yn yr arolygon hyn.

## Dangosydd 17 - A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio?

**Oes (23 o'r 25 o awdurdodau cynllunio lleol)**

Mae'r gallu i gael mynediad at geisiadau cynllunio a dogfennau atodol ar y rhyngrwyd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau, yn arbennig ymhlith y rhai nad ydynt yn gallu mynychu swyddfeydd yr awdurdod cynllunio lleol, am resymau mynediad neu deithio neu oherwydd ymrwymiadau amser. Mae llawer o awdurdodau cynllunio lleol yn defnyddio systemau TGCh sy'n gallu cyhoeddi ffeiliau cais cynllunio a chynnwys cysylltiedig yn uniongyrchol i wefan yr awdurdod.




**Ffigur 41 – Nifer yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n cynnig manylion cais cynllunio llawn neu rannol neu ddim manylion cais o gwbl ar eu gwefan**

Mae Ffigur 41 yn dangos bod 21 awdurdod cynllunio lleol yn darparu mynediad llawn at ffeiliau ceisiadau cynllunio ar eu gwefannau. O'r pedwar sy'n weddill, mae dau (Cyngor Sir Ceredigion ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) yn darparu rhywfaint o wybodaeth ceisiadau cynllunio ac mae dau (Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Sir Ynys Môn) nad ydynt yn darparu unrhyw wybodaeth.

Er nad yw hyn yn dangos unrhyw newid mewn perfformiad yn erbyn y safonau hyn yn ystod y cyfnodau adrodd, mae tri o'r pedwar awdurdod cynllunio lleol sy'n dangos bod hwn yn faes i'w wella wedi cyflawni camau gweithredu cadarnhaol. Er enghraifft, lansiodd Cyngor Sir Ynys Môn system ar-lein yn llwyddiannus gan alluogi'r cyhoedd i adolygu ceisiadau, ym mis Awst 2019, yn fuan ar ôl diwedd y cyfnod adrodd. Yn adroddiad y flwyddyn nesaf, caiff Cyngor Sir Ynys Môn ei nodi yn y band perfformiad "da".

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent hefyd wrthi'n paratoi i lansio gwasanaeth gwe tebyg yn y dyfodol agos. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro hefyd wedi gwella lefel yr wybodaeth sydd ar gael ar ei wefan, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn adroddiad y flwyddyn nesaf.


## ADRAN 5 – GORFODI

**Dangosydd 18 - Canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 o ddiwrnodau** | **76.9%**

Gall trydydd partïon ddisgwyl y bydd achosion honedig o dorri rheolaethau cynllunio yn cael eu harchwilio o fewn amserlen resymol. Mae'r targed o 84 diwrnod, neu 12 wythnos, wedi'i nodi fel amser rhesymol i ymateb i gwynion.

Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol reoli disgwyliadau trydydd partïon wrth ddilyn camau gorfodi. Dylid defnyddio pwerau gorfodi dim ond pan fydd yr awdurdod cynllunio lleol yn ystyried hynny'n hwylus er buddiannau ehangach y cyhoedd. Felly'r ddau gam cyntaf yn y gadwyn gorfodi yw penderfynu a gyflawnwyd tor-reolaeth, ac os felly, penderfynu a yw camau gorfodi yn hwylus. Unwaith y gwneir y penderfyniadau hyn, dylid hysbysu achwynydd ynglŷn â'r canlyniad.

Defnyddir y dangosydd hwn i ystyried effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol o ran cyflawni'r cam hwn o weithgareddau gorfodi.





**Ffigur 42 – Canran y cwynion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod**

Mae Ffigur 42 uchod yn dangos perfformiad unigol awdurdodau cynllunio lleol yn erbyn y dangosydd hwn, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer "gwella", oren ar gyfer "gweddol" a gwyrdd ar gyfer "da". Mae 13 awdurdod cynllunio lleol yn cyrraedd y band perfformiad "da". Mae allanolion sylweddol o ran perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn.

Unwaith eto eleni, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi cyflawni perfformiad rhagorol o ran ymchwiliadau gorfodi, er gwaethaf maint gweddol fach tîm cynllunio'r cyngor.

Mae Cyngor Caerdydd hefyd yn dangos y gall awdurdod mawr sydd â llwyth gwaith mawr adolygu achosion honedig o dorri rheoliadau cynllunio yn gyflym ac yn effeithiol o hyd.




**Ffigur 43 – Cymharu canran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod o un flwyddyn i'r llall**

Mae Ffigur 43 yn dangos perfformiad Cymru gyfan yn erbyn y dangosydd hwn, gyda chod lliw sy'n gysylltiedig â pherfformiad, sef coch ar gyfer "gwella", oren ar gyfer "gweddol" a gwyrdd ar gyfer "da". Mae'n dangos yn y rhan fwyaf o achosion (80.6%) yr ymchwilir i gwynion ynglŷn â thorri rheolaethau cynllunio o fewn y dyddiad targed o 84 diwrnod. Mae hwn yn ychydig o ostyngiad o ran perfformiad o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, er mai'r duedd dros y cyfnod hwy yw ar gyfer gwelliant yn y maes hwn. Mae'n amlwg yn ôl llawer o'r Adroddiadau Perfformiad Blynyddol fod pwysau ar adnoddau yn effeithio'n uniongyrchol ar gyflenwi gwasanaethau gorfodi ar lefel leol, er bod darparu adnoddau ar gyfer adrannau cynllunio yn benderfyniad lleol a bod yn rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol benderfynu ar sut i gydbwyso'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu.

Mewn nifer o achosion, mae awdurdodau cynllunio lleol naill ai'n rhoi'r dasg o drin ceisiadau cynllunio i swyddogion gorfodi neu, mewn rhai achosion, maent yn cael gwared ar dimau gorfodi ac yn rhoi'r dasg o ymgymryd â gweithgareddau gorfodi i swyddogion rheoli datblygu. Er enghraifft, mae Cyngor Sir Abertawe yn adrodd am ôl-groniad o achosion gorfodi heriol sydd wedi digwydd o ganlyniad i ddiffyg adnoddau hanesyddol. Mae'r cyngor bellach yn gweithio'n galed i ddileu'r ôl-groniad.

## Dangosydd 19 - Amser cyfartalog a gymerwyd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol


**184.6 o ddiwrnodau**

Mae'r dangosydd hwn yn dangos yr amser cyfartalog a gymerir i awdurdodau cynllunio lleol gymryd camau gorfodi cadarnhaol i ddatrys cwynion gorfodi, fel y disgrifir yn Nangosydd 18. Mae'r mesurydd hwn ond yn mesur achosion pan fo camau gweithredu yn cael eu cymryd i ddatrys tor-reolaeth, ac mae'n eithrio achosion pan fo awdurdod cynllunio lleol yn dod i'r casgliad nad oes unrhyw dorri rheolaethau wedi digwydd, neu nid yw’r camau gorfodi yn gyfleus.

Mae'r dangosydd wedi'i ddylunio i gofnodi gweithgarwch awdurdod cynllunio lleol – er enghraifft, mae'r "amser cyfartalog a gymerwyd i ddatrys" yn mesur yr amser a gymerir i ddod ag erlyniad at yr adeg pan mae'r achos yn cael ei glywed gyntaf, gan fod yr amser a gymerir i’r achos gael ei benderfynu gan y llys y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod cynllunio lleol.

Mae'r dangosydd hwn yn gweithredu er mwyn dangos yr heriau mae awdurdodau cynllunio lleol yn eu hwynebu wrth ddilyn camau gorfodi ac, yn arbennig, y buddsoddiad o ran adnoddau ac amser sy'n ofynnol er mwyn rheoleiddio datblygiad pan fo achos o dorri rheolaethau wedi cael ei gadarnhau.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru gyflwyno diffiniad newydd ar gyfer y dangosydd hwn ar gais Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru er mwyn sicrhau bod perfformiad gorfodi yn cael ei fesur gan yr agweddau hynny ar y gwasanaeth sydd o fewn rheolaeth yr awdurdod cynllunio lleol yn unig.




**Ffigur 44 – Yr amser cyfartalog a gymerwyd i ddatrys achosion gorfodi**

Mae Ffigur 44 uchod yn dangos yr amser cyfartalog a gymerwyd gan bob awdurdod cynllunio lleol i ddilyn camau gweithredu gorfodi cadarnhaol. Gan fod y dangosydd hwn wedi cael ei ailddiffinio yn ddiweddar, nid yw targedau perfformiad wedi cael eu cytuno gyda rhanddeiliaid eto. Gwnaeth un awdurdod cynllunio lleol fethu â darparu data perfformiad yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi gweithio i glirio ôl-groniad mawr o achosion gorfodi hanesyddol, y mae'n derbyn sydd wedi gwyro'r perfformiad yr adroddwyd ganddo, ond mae'n ystyried y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol dros y tymor hwy ar gyflenwi gwasanaethau cynllunio.

Mae cryn amrywiaeth o ran yr amser a adroddwyd i ddilyn camau gorfodi cadarnhaol ac rydym yn ymwybodol o ansicrwydd parhaus ynglŷn â'r dehongliad o'r dangosydd hwn. Darparwyd diffiniad gwell ar gyfer y dangosydd hwn ym mis Gorffennaf 2018, yr ydym yn ystyried a fydd yn sicrhau mwy o adrodd cyson yn y dyfodol. Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf y mae'r dangosydd wedi cael ei fesur yn y ffordd hon, bydd angen i ni ystyried tueddiadau yn y dyfodol cyn dod i gasgliad ar weithrediad gweithdrefnau gorfodi cyfredol.

## 4 – DATBLYGU CYNALIADWY

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, i gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn diffinio datblygu cynaliadwy fel a ganlyn:

> *Mae "datblygu cynaliadwy" yn golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.*

Mae gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i gorff weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

Mae'r system gynllunio yn allweddol wrth weithredu datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n galluogi'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi ar gyfer defnyddio, rheoli a datblygu tir er budd y cyhoedd. Mae hefyd yn fecanwaith allweddol ar gyfer gweithredu'r strategaeth genedlaethol "Ffyniant i Bawb".

Cyhoeddwyd fersiwn newydd o Bolisi Cynllunio Cymru ym mis Rhagfyr 2018. Mae hyn wedi cyflwyno creu lleoedd i'r system gynllunio genedlaethol ac mae'n gosod creu lleoedd cynaliadwy fel nod i'r system gynllunio.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cyfres o saith dangosydd allweddol i nodi sut mae'r system gynllunio yn cyfrannu at gyflawni gwaith datblygu cynaliadwy strategol yng Nghymru. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- SD1 Adnewyddu economaidd – Datblygu economaidd
- SD2 Economi carbon isel - Ynni adnewyddadwy
- SD3 Mynediad at gartrefi gwell – Cartrefi newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy)
- SD4 Gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd – Perygl llifogydd
- SD5 Defnydd tir effeithlon – Tir a ddatblygwyd yn flaenorol
- SD6 Mannau agored – Mannau agored a gollwyd / a enillwyd
- SD7 Seilwaith cymunedol – Cyfraniadau a sicrhawyd ar gyfer cyfleusterau cymunedol

Caiff y wybodaeth ei chasglu oddi wrth awdurdodau cynllunio lleol yn dilyn eu hystyriaeth o geisiadau cynllunio a'i chyflwyno yn flynyddol. Caiff hon ei defnyddio ar gyfer dadansoddiad cronnus yn hytrach na chymharol.

Mae darparu'r data yn angenrheidiol i ddangos y rôl sylweddol mae'r system gynllunio yn ei chwarae o ran helpu i gyflenwi amrediad o ganlyniadau datblygu cynaliadwy a gwerth cynllunio i'r gymdeithas yn fwy cyffredinol.

Gwnaeth yr awdurdodau cynllunio lleol canlynol gyflwyno data cyflawn yn ystod y cyfnod adrodd:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Dinas Caerdydd

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Gwynedd
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Gwnaeth yr awdurdodau cynllunio lleol canlynol gyflwyno data rhannol yn ystod y cyfnod adrodd:

- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro


Ni wnaeth yr awdurdod cynllunio lleol canlynol gyflwyno data yn ystod y cyfnod adrodd:

- Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Byddwn ni'n parhau i weithio tuag at roi sylw llawn i'r setiau data pwysig hyn, sy'n dangos sut y gall y system gynllunio ein helpu i symud tuag at Gymru fwy cynaliadwy.

SD1. Yr arwynebedd llawr (metrau sgwâr) y cafodd caniatâd cynllunio ei roi a'i wrthod iddo ar gyfer datblygiad economaidd newydd ar safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd yn ystod y flwyddyn

359,196 metr sgwâr wedi'u cymeradwyo, 4,062 metr




Mae'r dangosydd hwn yn darparu gwybodaeth am gyfraniad y system gynllunio at gyflawni datblygiadau economaidd (neu gyflogaeth) traddodiadol sy'n perthyn i ddosbarthiadau defnydd B1, B2 a B8.

Mae'r system gynllunio'n hybu datblygu economaidd sy'n cyfrannu at ffyniant ac adfywiad. Er mwyn helpu i gyflawni'r nod hwn, mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio weithio'n strategol ac yn gydweithredol a llywio datblygiadau i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ac effeithlon. Ni ddylai diffyg tir gyfyngu ar yr angen am ddatblygiadau economaidd newydd.

Dros gyfnod 2018-19, rhoddwyd caniatâd cynllunio i gyfanswm o 359,197 metr sgwâr o arwynebedd llawr newydd ar gyfer cyflogaeth a gwrthodwyd 4,062 metr sgwâr. Roedd y rhan fwyaf o'r arwynebedd a wrthodwyd, sef 4,036 metr sgwâr ar safleoedd heb eu neilltuo, a gwrthodwyd dim ond 26 metr sgwâr ar safleoedd wedi'u neilltuo.

O blith cyfanswm yr arwynebedd llawr, caniatawyd 214,295 metr sgwâr ar safleoedd cyflogaeth wedi'u neilltuo a 144,902 metr sgwâr ar safleoedd heb eu neilltuo. Ar safleoedd wedi'u neilltuo, cafwyd cwymp o ran arwynebedd llawr newydd o 38% o'i gymharu â'r llynedd (314,533 metr sgwâr) ac maent yn debyg i ffigurau 2014-15 a 2016-17. Ar safleoedd heb eu neilltuo, cafwyd cwymp llai o 14% o'i gymharu â'r llynedd. Cyn 2017-18, gellir ond cymharu blynyddoedd yn uniongyrchol o ran safleoedd wedi'u neilltuo oherwydd ni chofnodwyd datblygiadau ar safleoedd heb eu neilltuo. Nid oes patrwm penodol yn dod i'r amlwg o ran y cyfanswm a roddwyd neu'r cyfanswm a wrthodwyd dros y pum mlynedd diwethaf.

Arwynebedd llawr y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer ar safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd

Y sector busnes

Eleni, cyfrannodd y sector busnes 33% o'r arwynebedd llawr a roddwyd, sef cynnydd o 23% ers 2017-18. Fodd bynnag, o ran cyfanswm gwirioneddol yr arwynebedd llawr a roddwyd, roedd 2018-19 (72,014 metr sgwâr) yn debyg i 2017-18 (74,986 metr sgwâr). Yr awdurdod â'r cyfraniad mwyaf i'r cyfanswm hwn oedd Cyngor Caerdydd, gyda 50,657 metr sgwâr neu 70% o gyfanswm Cymru. Mae canlyniadau'r ddwy flynedd diwethaf yn dangos peth sefydlogrwydd yn y farchnad fusnes yn ymwneud â blynyddoedd blaenorol, pan gafodd, er enghraifft, cyfanswm o 69,068 metr sgwâr (neu 27% o'r datblygiad cyflogaeth) eu rhoi yn 2014/15. Fodd bynnag, yn ystod 2015/16, cafwyd gostyngiad sylweddol mewn arwynebedd llawr pan gafodd 14,390 metr sgwâr yn unig (6% o gyfanswm y datblygiad cyflogaeth) eu rhoi.

Yn ystod y chwe blynedd ers 2013-14, mae Cyngor Caerdydd wedi caniatáu 93,897 metr sgwâr (29%) o'r arwynebedd llawr ar gyfer busnes, gyda Chyngor Sir Powys (62,435 metr sgwâr, neu 19%) yn ail a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (50,805 metr sgwâr, neu 16%) yn drydydd. Gyda'i gilydd, mae'r tri awdurdod hyn wedi cyfrannu 64% o'r holl arwynebedd llawr ar gyfer busnes yn ystod y cyfnod hwn.

Diwydiant cyffredinol

Diwydiant cyffredinol yw'r cyfrannwr lleiaf i'r cyfanswm a ganiatawyd eleni, ar 20%; mae hwn yn gynnydd ar ffigur y llynedd o 15%. Fodd bynnag, o ran arwynebedd llawr gwirioneddol a roddwyd, gwelwyd lleihad eleni o 48,707 metr sgwâr i 43,842 metr sgwâr. Eleni a'r llynedd mae'r arwynebedd llawr a ganiatawyd tua hanner yr hyn a gafwyd yn 2014/15 a 2015/16, a oedd yn dod i gyfanswm o 92,264 metr sgwâr a 93,748 metr sgwâr yn y drefn honno. Fodd bynnag, mae cynnwys safleoedd heb eu neilltuo'n cynyddu'r cyfanswm 18,842 metr sgwâr i 62,684 metr sgwâr. Yr awdurdod a ganiataodd y mwyaf o arwynebedd llawr diwydiannol cyffredinol yn 2018-19 ar dir wedi'i neilltuo oedd Cyngor Sir Powys, gyda 12,902 metr sgwâr (29%). Cafodd y rhan fwyaf o'r gweddill ei rannu rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Caerdydd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Yn ystod y chwe blynedd ers 2013-14, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu 89,640 metr sgwâr (29%) o'r arwynebedd llawr ar gyfer busnes, gyda Chyngor Sir Powys (46,941 metr sgwâr, neu 15%) yn ail a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (34,986 metr sgwâr, neu 11%) yn drydydd. Gyda'i gilydd, mae'r tri awdurdod hyn wedi cyfrannu 55% o'r holl arwynebedd llawr ar gyfer diwydiant cyffredinol yn ystod y cyfnod hwn. Roedd 80% o'r holl arwynebedd llawr ar gyfer diwydiant cyffredinol yn perthyn i'r chwe awdurdod uchaf.

Storio a dosbarthu

Storio a dosbarthu oedd y trydydd cyfrannwr mwyaf eleni gyda 45,091 metr sgwâr, neu 21% o'r cyfanswm, wedi cael caniatâd. Yr awdurdod a gyfrannodd y gyfran fwyaf oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gyda 19,840 metr sgwâr (44%), gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (6,375 metr sgwâr, neu 14%) yn ail a Chyngor Caerdydd (4,503 metr sgwâr, neu 10%) yn drydydd. Yn 2017-18, cyfanswm yr arwynebedd llawr a neilltuwyd ar gyfer storio a dosbarthu oedd 86,779 metr sgwâr neu 27%, sef bron dwbl ffigur 2018-19. Fodd bynnag, daeth cyfran sylweddol o gyfanswm 2017-18, sef 61,560 metr sgwâr (71%), o Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn unig.

Yn ystod y chwe blynedd ers 2013-14, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi caniatáu 61,560 metr sgwâr (21%) o'r arwynebedd llawr ar gyfer storio a dosbarthu, gyda Chyngor Sir Powys (53,574 metr sgwâr, neu 19%) yn ail a Chyngor Sir Gwynedd (34,947 metr sgwâr, neu 12%) yn drydydd. Gyda'i gilydd, mae'r tri awdurdod hyn wedi cyfrannu 52% o'r holl arwynebedd llawr ar gyfer storio a dosbarthu yn ystod y cyfnod hwn a chyfrannodd y pum awdurdod uchaf 71% o'r arwynebedd llawr ar gyfer storio a dosbarthu.

Aml-ddefnyddiau

Y sector aml-ddefnyddiau oedd yr ail gyfrannwr mwyaf at gyfanswm yr arwynebedd llawr a roddwyd eleni, gyda 53,348 metr sgwâr neu 24% o'r cyfanswm. Dyma leihad o 29,036 metr sgwâr (35%) o gyfanswm 2017-18 sef 82,384 metr sgwâr. Yn gyffredinol, ac eithrio 2016-17 pan fu cyfanswm yr arwynebedd llawr ar gyfer aml-ddefnyddiau dim ond yn 21,008 metr sgwâr, mae aml-ddefnyddiau wedi tueddu i gynyddu, gyda 62,520 metr sgwâr yn 2014-15, 76,908 metr sgwâr yn 2015-16 ac 82,384 metr sgwâr yn 2017-18. Cyngor Sir Fynwy (17,280 metr sgwâr, neu 32%) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (12,862 metr sgwâr, neu 24%) oedd y ddau awdurdod lleol a gyfrannodd y mwyaf o arwynebedd llawr ar gyfer aml-ddefnyddiau.

Yn ystod y chwe blynedd ers 2013-14, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi caniatáu 116,311 metr sgwâr (36%) o'r arwynebedd llawr ar gyfer aml-ddefnyddiau, gyda Chyngor Sir Powys (39,649 metr sgwâr, neu 12%) yn ail a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (23,201 metr sgwâr, neu 7%) yn drydydd. Gyda'i gilydd, mae'r tri awdurdod hyn wedi cyfrannu 55% o'r holl arwynebedd llawr ar gyfer aml-ddefnyddiau yn ystod y cyfnod hwn a chyfrannodd y pum awdurdod uchaf 69% o'r arwynebedd llawr ar gyfer aml-ddefnyddiau.

<u>Arwynebedd llawr y gwrthodwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer ar safleoedd cyflogaeth a neilltuwyd</u>

Gwrthodwyd caniatâd cynllunio i gyfanswm o 26 metr sgwâr o arwynebedd llawr ar gyfer cyflogaeth eleni o'i gymharu â 1,422 metr sgwâr yn 2017-18 a 14,283 metr sgwâr yn 2016-17. Dros y tair blynedd rhwng 2014/15 a 2016/17, roedd yr arwynebedd llawr a wrthodwyd yn 0.1%, 8%, a 9%. Ni fu unrhyw batrymau y gellir eu harsylwi o ran gwrthodiadau dros y bum mlynedd diwethaf, ar wahân i aml-ddefnyddiau, sydd heb gael unrhyw wrthodiadau yn ystod y cyfnod.

<u>Arwynebedd llawr y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer ar safleoedd cyflogaeth heb eu neilltuo</u>

Roedd 40% o'r holl arwynebedd llawr ar gyfer cyflogaeth a roddwyd (144,902 metr sgwâr) yn arwynebedd llawr a roddwyd ar safleoedd heb eu neilltuo, o'i gymharu â 34% dros y cyfnod blaenorol. Storio a dosbarthu oedd y gyfran fwyaf o hyn gyda 38% (56,169 metr sgwâr). Yn dilyn hyn roedd y sector busnes gyda 27% (39,853 metr sgwâr), aml-ddefnyddiau gyda 21% (30,038 metr sgwâr) a diwydiant cyffredinol gydag 13% (18,842 metr sgwâr).

Yr awdurdodau a roddodd y mwyaf o arwynebedd llawr heb ei neilltuo yn y sector storio a dosbarthu oedd Cyngor Dinas Casnewydd gyda 39% (22,300 metr sgwâr) a Chyngor Caerdydd gyda 22% (12,606 metr sgwâr). Yn y sector busnes, rhoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 47% (18,918 metr sgwâr) o'r cyfanswm a rhoddodd


Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 28% (11,554 metr sgwâr). O ran aml-ddefnyddiau, rhoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 47% (14,222 metr sgwâr) ac o ran diwydiant cyffredinol, rhoddodd Cyngor Sir Penfro 49% (9,393 metr sgwâr).

Arwynebedd llawr y gwrthodwyd caniatâd cynllunio ar ei gyfer ar safleoedd cyflogaeth heb eu neilltuo

Roedd caniatâd a wrthodwyd ar gyfer arwynebedd llawr ar safleoedd heb eu neilltuo yn cyfrif am 99% o'r holl arwynebedd llawr ar gyfer cyflogaeth a wrthodwyd. Gwrthodwyd cyfanswm o 4,036 metr sgwâr yn ystod cyfnod 2018-19, o'i gymharu â 3,171 metr sgwâr yn 2017-18. Aml-ddefnyddiau oedd y gyfran fwyaf o'r ffigur hwn, sef 2,401 metr sgwâr neu 59%. Yr ail gyfran fwyaf oedd busnes gydag 1,164 metr sgwâr (28%) a'r trydydd oedd diwydiant cyffredinol gyda 471 metr sgwâr. Ni wrthodwyd unrhyw arwynebedd llawr ar gyfer storio neu ddosbarthu er mai dyna'r sector mwyaf a ganiatawyd ar dir heb ei neilltuo.

SD2. Caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ystod y flwyddyn

95 o geisiadau, 106 megawat




Gall y system gynllunio hwyluso creu ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae'r dangosydd hwn yn dangos i ni'r cyfraniad mae'r system gynllunio yn ei wneud tuag at y gwaith o greu ynni adnewyddadwy a charbon isel a symud tuag at economi carbon isel.

Mae'r data yn dangos y rhoddwyd caniatâd cynllunio i 95 o geisiadau cynllunio am gynlluniau ynni adnewyddadwy yn 2018/19, gyda photensial i greu 106 megawat (MW) o ynni. Mae hyn yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, ond cymeradwywyd nifer fwy o gynlluniau llai. Y dechnoleg y rhoddwyd y nifer fwyaf o ganiatadau cynllunio iddi oedd solar (28) ac ynni dŵr (40). O ran capasiti cynhyrchu trydan, y dechnoleg a gyfrannodd y mwyaf oedd solar (59MW), gwynt (22MW) a biomas (14MW).


Mae llai o gynlluniau ynni adnewyddadwy a charbon isel wedi'u cyflwyno ac wedi eu caniatáu yng Nghymru ers 2015/16. Mae'r gostyngiad o ran caniatadau o ganlyniad i doriadau gan Lywodraeth y DU i'r gyfundrefn ar gyfer rhoi cymhorthdal i gynlluniau ynni adnewyddadwy. Yn 2015/16, roedd uchafbwynt o ran caniatadau, a oedd yn debygol o fod o ganlyniad i ddatblygwyr yn ceisio cael caniatâd cynllunio cyn i'r newidiadau cymhorthdal ddod i rym. Mae'r data ar gyfer 2018/19 yn parhau â'r duedd o gwymp dilynol ers dileu'r cymhorthdal.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â newid hinsawdd ac wedi derbyn argymhelliad Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd ar gyfer lleihad o 95% yng Nghymru ac mae'n bwriadu deddfu hyn yn 2020. Mae hyn yn cynrychioli cyfraniad teg Cymru i ymrwymiad y DU o dan Gytundeb Paris ac yn dangos ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Yn ogystal â hynny, datganwyd ein huchelgais i gyrraedd sero net erbyn 2050 a byddwn yn gweithio gyda Phwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd a rhanddeiliaid eraill i ddeall sut y gellid cyflawni hyn. Hefyd, mae gan Lywodraeth Cymru darged i gynhyrchu 70% o'n defnydd o drydan trwy ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030.

Er mwyn hybu'r gwaith o gyflawni ein hymrwymiadau o ran newid hinsawdd ac ynni adnewyddadwy, rydym wedi gwneud newidiadau ym Mholisi Cynllunio Cymru i gryfhau ein polisi cynllun cadarnhaol ar ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel. Rydym hefyd yn cynnig datblygu hyn yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yr ymgynghorwyd arno rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2019 ac y disgwylir ei gyhoeddi ym mis Medi 2020.

## SD3. Nifer yr anheddau a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y flwyddyn

6,098 o anheddau ar y farchnad agored, 2,600 o anheddau fforddiadwy






Mae'r system gynllunio yn hwyluso darparu tai fforddiadwy a thai'r farchnad agored i ddiwallu gofynion tai lleol a nodwyd gan yr awdurdodau cynllunio lleol yn eu cynlluniau datblygu. Mae'r dangosydd hwn yn darparu gwybodaeth am gyfraniad y system gynllunio tuag at ddarparu tai newydd ar ffurf caniatadau cynllunio a roddwyd ar gyfer tai fforddiadwy a thai'r farchnad agored. Fel y cyfryw, nid oes modd cymharu'r dangosydd hwn ag ystadegau Llywodraeth Cymru ar 'ddarpariaeth tai fforddiadwy' ac 'adeiladu tai newydd', y maent ill dau yn casglu data yn bennaf ar dai a gwblhawyd.

Mae'r data yn dangos y cafodd 8,698 o anheddau ganiatâd cynllunio yn 2018/19, sef gostyngiad o 4,962 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn bennaf yn sgil lleihad yn nifer y caniatadau a roddwyd ar gyfer tai marchnad agored (i lawr 4,895 o 10,993 yn 2017/18 i 6,098 yn 2018/19). Rhoddwyd caniatâd cynllunio i ychydig yn llai o dai fforddiadwy yn 2018/19 nag yn 2017/18 (2,600 o'u cymharu â 2,667), sef bron 30% (29.9%) o gyfanswm y caniatadau ar gyfer anheddau.

SD4. Caniatâd cynllunio a roddwyd ac a wrthodwyd ar gyfer datblygiadau mewn ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 yn ystod y flwyddyn

cymeradwywywyd 652 o anheddau a 77 hectar; gwrthodwyd 63 o anheddau a chwe hectar



Mae gan y system gynllunio rôl bwysig o ran sicrhau bod gwaith datblygu newydd yn cael ei leoli mewn modd fel y bo'r bygythiad o lifogydd yn cael ei leihau. Yn unol â hynny, mae’r polisi cynllunio cenedlaethol yn ceisio llywio datblygu tuag at leoliadau heb unrhyw berygl o lifogydd neu berygl prin o lifogydd. Mae'r dangosydd hwn yn darparu gwybodaeth am sut y mae ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd yn cael eu rheoli. Mae canlyniadau eleni eto'n dangos parodrwydd pryderus gan awdurdodau cynllunio lleol i roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau preswyl mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd.


Mae ystadegau 2018-19 yn dangos y rhoddwyd caniatâd cynllunio i 652 o dai mewn ardaloedd dan berygl o lifogydd (parth llifogydd C fel y'i diffinnir ar Fap Cyngor Datblygu TAN 15). O blith y rhain, caniatawyd 167 mewn ardaloedd nad ydynt yn elwa ar amddiffynfeydd llifogydd (parth llifogydd C2) a chaniatawyd 485 o gartrefi mewn ardaloedd sy'n elwa ar adeiledd amddiffynfeydd llifogydd (parth C1). Mae'r ffigurau hyn yn welliant sylweddol ar ffigurau'r flwyddyn flaenorol ac yn well hefyd nag ystadegau 2016-17.

Y swm o dir datblygu a ganiatawyd ar gyfer datblygiadau amhreswyl oedd 77 hectar wedi'i rannu'n weddol gyfartal ar draws parth C1 (35.2ha) a pharth C2 (42.0ha). Mae hyn yn ddychwel i lefelau cymedrol o ddatblygiad posib mewn ardaloedd dan berygl o lifogydd, yn dilyn dwy flynedd lle bo swm mawr o dir ar gyfer datblygu mewn ardaloedd dan berygl o lifogydd yn cael ei ganiatáu - 2,476ha yn 2016/17 a 407ha yn 2017/18.

Rydym yn cynnig diweddaru TAN 15 a chyflwyno cyfarwyddyd hysbysu diwygiedig yn 2020. Mae hyn yn rhannol fel ymateb i'r nifer uchel o gartrefi a ganiatawyd mewn ardaloedd dan berygl o lifogydd ers 2015. Rydym yn disgwyl y bydd y newidiadau arfaethedig hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar ddychweliadau pan fydd y newidiadau yn cael eu gweithredu.

SD5. Yr arwynebedd tir (hectar) y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd arno, ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol a thir maes glas, yn ystod y flwyddyn.

297 (a ddatblygwyd yn flaenorol)
203 (maes glas)





Gall y system gynllunio sicrhau, lle y bo'n bosibl, fod tir a ddatblygwyd yn flaenorol yn cael blaenoriaeth o ran ei ddefnyddio, yn hytrach na safleoedd maes glas, yn arbennig y rheini sydd o werth amaethyddol neu ecolegol uchel. Mae'r dangosydd hwn yn dweud wrthym a yw'r system gynllunio yn cyfeirio datblygiad newydd tuag at dir a ddatblygwyd yn flaenorol.

Mae'r data yn dangos y cymeradwywyd 59% o ddatblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol yn 2018/19. Mae hyn yn gynnydd o 42% y flwyddyn flaenorol, sydd o ganlyniad i lai o dir yn cael ei gymeradwyo ar dir maes glas. Mae hyn yn newid cadarnhaol ac yn adlewyrchu sut mae'r system gynllunio yn ceisio cyfeirio datblygiadau newydd at dir a ddatblygwyd yn flaenorol.

Atgyfnerthodd y fersiwn ddiweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru y sefyllfa bolisi hon, gan gyflwyno dilyniant chwilio safle sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio ystyried tir a ddatblygwyd yn flaenorol (a/neu safleoedd sy’n cael eu tanddefnyddio o fewn aneddiadau presennol) yn y lle cyntaf wrth ddatblygu eu strategaeth ofodol. Byddwn yn monitro gweithrediad y polisi hwn drwy'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy.

SD6. Arwynebedd y mannau agored cyhoeddus (hectar) a fyddai'n cael eu colli a'u hennill o ganlyniad i ddatblygiadau y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn ystod y flwyddyn

Collwyd 17 hectar
Enillwyd 30 hectar





Mae mannau agored yn darparu gwerth hamdden, amwynder ac amgylcheddol yn ogystal â bod â rôl o ran amddiffyn yr hinsawdd ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r dangosydd hwn yn mesur sut mae'r system gynllunio yn diogelu mannau agored sydd eisoes yn bodoli ac yn hwyluso darparu mannau agored newydd.

Mae'r swm o fannau agored a enillwyd ac a gollwyd yn 2018/19 yn amlwg yn llai na mewn blynyddoedd blaenorol. Yn 2018/19 crëwyd 29.7 hectar o fannau agored newydd.  O'i gymharu, enillwyd 39ha yn 2017/18 ac enillwyd 111ha yn 2016/17.

Collwyd 17.3 hectar o fannau agored yn 2018/19. Dim ond mewn pedwar o ardaloedd awdurdod lleol y collwyd mwy nag un hectar o fannau agored. Dyma'r ffigur lleiaf ers 2014/15. Mae enillion net o 12 hectar yn dra thebyg i'r darlun cyffredinol mewn blynyddoedd diweddar, ac eithrio 2015/16 pan gollwyd mwy na 120 o hectarau o fannau agored.

| SD7. Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£) a gytunwyd o waith datblygu newydd a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y chwarter ar gyfer darparu seilwaith cymunedol | £21,863,516 (Adran 106)<br>£3,010,367 Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) |
|---|---|




Gall cyfraniadau ariannol gael eu defnyddio i ariannu darparu'r seilwaith cymunedol sy'n ofynnol i gefnogi datblygu cynaliadwy. Mae'r dangosydd hwn yn mesur y lefel o gyfraniadau ariannol y cytunwyd arni ar gyfer darparu seilwaith cymunedol.

O'i gymharu â data'r llynedd, bu gostyngiad sylweddol yn y cyfraniadau ariannol y cytunwyd arnynt o ddatblygiadau newydd drwy gytundebau Adran 106.  Bu gostyngiad o oddeutu 45% (£18,166,149.03). Fodd bynnag, bu cynnydd yn y broses o gasglu cyfraniadau CIL o oddeutu 75% (£1,281,478.10).  Yn gyffredinol, bu gostyngiad mewn cyfraniadau ariannol o oddeutu 40% (£16,884,670.91).  Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i'r gostyngiad yn arwynebedd y tir a dderbyniodd ganiatâd cynllunio dros y ddwy flynedd adrodd flaenorol (Gweler SD5).

Cyfartaledd y casgliad o gyfraniadau Adran 106 fesul awdurdod cynllunio lleol yw £874,540.64, gyda Chaerdydd (£6,101,746.30), Pen-y-bont ar Ogwr (£4,317,206.43), Bro Morgannwg (£3,483,167.20) a Sir Fynwy (£3,009,810.89) yn cyfrannu'r mwyaf, gan gyfrif am dros 75% o gyfanswm y casgliadau. O'r rheini a adroddodd, ni adroddodd Blaenau Gwent, Sir Gaerfyrddin, Merthyr Tudful ac Eryri unrhyw gasgliad.

O'r tri awdurdod cynllunio lleol sydd wedi mabwysiadu strwythur codi tâl CIL, adroddwyd £2,559,794.63 (Caerffili),  £429,486.49 (Rhondda Cynon Taf) a £21,086 (Merthyr Tudful) mewn casgliadau.  Roedd CIL yn gyfrif am 12% o gyfanswm y casgliadau.

## 5 – CASGLIAD

Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, mae neges gyffredin ymhlith yr adroddiadau Perfformiad Blynyddol ynglŷn ag awdurdodau cynllunio lleol ac ymgyngoreion statudol, sef dyfalbarhad yn erbyn cyni.  Mae awdurdodau cynllunio lleol yn parhau i ddarganfod ffyrdd o gyflawni gwasanaeth cystal â safonau hanesyddol, er gwaethaf cyfyngiadau cyllidebol cynyddol a hefyd lefel gynyddol o ddisgwyliad gan ddefnyddwyr gwasanaeth, a'r gymuned yn gyffredinol, y bydd y system gynllunio yn gallu darparu datrysiadau i heriau mwyaf y genedl.

Mae dod o hyd i adnoddau ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol yn arbennig yn her barhaus. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau cynllunio lleol wedi adrodd heriau cyllid yn y cyfnod adrodd hwn, ac er gwaethaf y dulliau arloesol o greu adnoddau ar gyfer timau cynllunio lleol, mae'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwneud eisoes wedi eu cyflawni dros sawl blwyddyn o gyni yn y sector cyhoeddus. Mae'r gallu i gadw lefelau gwasanaeth yn gyson, ac mewn rhai achosion eu gwella, yn dyst i ymroddiad a phroffesiynoldeb y rheini sy'n gweithio o fewn y system gynllunio yng Nghymru.

Gwnaeth cyflwyniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ar gyllideb ddrafft 2018/19 adrodd bod cyllid gan lywodraeth leol i wasanaethau cynllunio wedi gostwng dros 50% rhwng y blynyddoedd ariannol 2009/10 a 2017/18.  Gwnaeth CLILC hefyd ddatgan yn yr adroddiad

> bod y toriadau ar gyfer cyllidebau llai megis gwasanaethau cynllunio a rheoliadol wedi bod yn drychinebus a dyma'r gwasanaethau sy'n chwarae rôl hanfodol mewn adfywio a chadw cymunedau yn ddiogel.

Er bod ffioedd cynllunio yn gwneud cyfraniad ariannol pwysig at hyfywedd gwasanaethau cynllunio lleol, rhaid cynnal lefelau gwasanaethau i ddarparu'r swyddogaeth llywodraeth leol hynod bwysig hon i greu cartrefi a busnesau, ac er mwyn cymell buddsoddiad lleol.

Ymddengys fod y proffesiwn cynllunio yn profi dirywiad o ran ei boblogrwydd fel dewis gyrfa, o bosib o ganlyniad i'r dadfuddsoddiad hwn o un flwyddyn i'r llall, yn enwedig ar lefel llywodraeth leol.  Er bod darparu gwasanaethau arbenigol ar lefel ranbarthol wedi bod yn effeithiol dros ben gyda gwasanaethau gwastraff a mwynau yng ngogledd a gorllewin Cymru, mae angen gwneud mwy o waith mewn arbenigeddau eraill, er mwyn manteisio ar yr arbenigedd hwnnw a gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau.

Yn y cyfamser, mae sawl adroddiad yn cyfeirio at heriau o ran cynllunio ar gyfer olyniaeth, a recriwtio i rolau mwy iau, neu mewn meysydd sgiliau arbenigol, ac mae sôn am swyddogion profiadol yn ymddeol a chyfle prin i ymgymryd â gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth neu uwchsgilio cydweithwyr.

Mae'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, sef cangen Cymru'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, wedi ymgymryd ag astudiaeth o ran aelodaeth sy'n cadarnhau'n annibynnol bod y gweithlu cynllunio trefol yn heneiddio.   Nododd yr astudiaeth oedran cyfartalog aelodau'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, fesul sector, ym mis Tachwedd 2019.  Ar gyfer cynllunwyr sector cyhoeddus, yr oedran cyfartalog yw 45 oed, a 41 oed ydyw ar gyfer y sector preifat. Oedran cyfartalog ymgynghorwyr annibynnol yng Nghymru yw 60 oed.

Yn yr un modd, mae pwysau ar gyllidebau yn ei gwneud yn ofynnol bod aelodau staff yn cynyddu eu hallbynnau effeithlonrwydd unigol, gan leihau'r amser sydd ar gael i ddatblygu setiau sgiliau personol neu ddilyn datblygiad proffesiynol. Mae sawl awdurdod cynllunio lleol yn adrodd gostyngiadau mewn cyfleoedd i hyfforddi staff, gyda nifer yn dibynnu ar y rheini a ddarperir yn rhad ac am ddim, megis gan Lywodraeth Cymru, yr Arolygaeth Gynllunio neu randdeiliaid eraill. Mae hyn yn rhwystro cynllunio ar gyfer olyniaeth ymhellach.

Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad ynglŷn ag effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru. Roedd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd rhwng 2017 ac yn gynnar yn 2019, ac ymgysylltu uniongyrchol â rhanddeiliaid a wnaed gan awdurdodau Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Mae adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn nodi nifer o'r heriau i'r system gynllunio sydd eisoes wedi eu hadrodd gan awdurdodau cynllunio lleol a Llywodraeth Cymru mewn adroddiadau perfformiad blynyddol blaenorol. Mae hyn yn cynnwys cyfyngiadau o ran adnoddau mewn timau cynllunio lleol, ansawdd a chysondeb penderfyniadau gan aelodau sydd yn erbyn cyngor swyddogion, ac yn gritigol, yr angen i ddangos bod canlyniadau cynllunio yn cyfrannu at lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae yna hefyd ychydig o negeseuon anodd ar gyfer yr awdurdodau cynllunio lleol o ran barn defnyddwyr gwasanaethau am eu gwasanaethau cynllunio.

Mae adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gwneud cyfres o argymhellion, yn bennaf i'r awdurdodau cynllunio lleol eu rhoi ar waith, er bod rhai argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gydag awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid eraill er mwyn datblygu'r argymhellion i sicrhau bod y gwasanaeth cynllunio mor effeithiol a gwydn â phosibl.

Mae ychydig o'r ffrydiau gwaith hynny ar waith eisoes - er enghraifft, mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu trefn y ffi gynllunio yng Nghymru, mewn partneriaeth â Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, ers 2018. Rydym yn cydnabod, er mwyn i'r gwasanaeth ddiwallu anghenion defnyddwyr y gwasanaeth a chymunedau, bod yn rhaid sicrhau adnoddau priodol ar ei gyfer, ac un o’r prif ffactorau sy’n cyfrannu at hyn yw lefel ffioedd y ceisiadau cynllunio. Rydym yn bwriadu symud tuag at fodel mwy niwtral o ran cost, a byddwn yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer cynnydd dros dro mewn ffioedd cynllunio ar ddechrau 2020.

Rydym hefyd wedi adolygu Polisi Cynllunio Cymru. Mae Rhifyn 10, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i weithredu’r nodau llesiant y mae Polisi Cynllunio Cymru yn ceisio eu gweithredu’n uniongyrchol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol a phenderfyniadau cynllunio. Wrth i Gynlluniau Datblygu Lleol gyrraedd pedair blynedd ers eu mabwysiadu, ac wrth iddynt gael eu hadolygu, byddant yn cynnwys y dull hwn o weithio, ac wrth wneud hynny, byddant yn gallu olrhain yr "edau euraidd" o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, hyd at benderfyniadau cynllunio sy'n seiliedig ar bolisïau cenedlaethol a pholisïau lleol a ddyluniwyd i weithredu'r ddeddf. Caiff y dull hwn ei atgyfnerthu ymhellach wrth i ni weithio tuag at Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd i Gymru a fydd yn nodi polisïau gofodol strategol cenedlaethol ar y defnydd o dir.

